

Creu Arfau Cyfranogaeth a Denu Siaradwyr Cymraeg i Gyfranogi

Gorffennaf 2007



Estyn Llaw



menter
a Busnes



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Cynnwys

	Tudalen
Cynnwys	3
Cyflwyniad	4
Diffinio Arfau Cyfranogaeth	8
Egwyddorion Cyffredinol	10
Enghreifftiau o Arfau Cyfranogaeth	14
Y Prosiectau Peilot / Gweithgareddau a Hwyluswyd	23
Adnabod Cryfderau a Goresgyn Rhwystrau	28
Crynodeb	35
Cydnabyddiaeth a Llyfryddiaeth	40
Atodiadau	42

Cyflwyniad

Cymunedau yn Gyntaf yw'r enw ar raglen wrthlodi a gwrth-amddifadedd flaengar Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r rhaglen yn gweithio o fewn dros 140 o gymunedau mwyaf difreintiedig y wlad a chymunedau o ddi-ddordeb arbennig. Mae'r ardaloedd sy'n rhan o raglen Cymunedau yn Gyntaf wedi eu lleoli ym mhob cwr o Gymru, yn ardaloedd gwledig, dinesig, trefol, amaethyddol, diwydiannol ac ôl-ddiwydiannol. Aethpwyd ati i sefydlu partneriaethau lleol ym mhob un o'r ardaloedd hyn er mwyn cytuno ar flaenoriaethau ac anghenion lleol, a gweithredu rhaglen waith a fydd yn mynd i'r afael â'r materion hynny. Mae ymrwymiad gan Lywodraeth y Cynulliad i'r rhaglen redeg am o leiaf ddeng mlynedd ac mae'n anelu i gael dylanwad hir dymor ar broblemau cymdeithasol megis tlodi, gydag adnoddau ar gael i gyflogi staff yn lleol ac i weithredu cynlluniau lleol.

Mae'r Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf (RhCCG) yn bartneriaeth ffurfiol o naw mudiad trydydd sector a sefydlwyd yn 2001 i gefnogi'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Ariennir y Rhwydwaith gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu gwasanaethau ar gyfer partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, cydlynwyr, a budd-ddeiliaid allweddol eraill yn y broses. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys cefnogaeth uniongyrchol i bartneriaethau unigol, gwybodaeth am y rhaglen gyfan a darparu arweiniad ar faterion allweddol penodol megis datblygu potensial ac arolygon bro.

Menter a Busnes yw'r corff oddi fewn i'r Rhwydwaith Gefnogi sy'n gyfrifol am brif-ffrydio'r Gymraeg oddi fewn i'r rhaglen. Menter a Busnes ar y cyd ag Estyn Llaw sydd wedi llunio'r adroddiad hwn ar ran Rhwydwaith Gefnogi Cymunedau yn Gyntaf. Mae Estyn Llaw yn gynllun a ariennir yn bennaf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg, gyda'r nod o ddatblygu dwyieithrwydd o fewn y sector gwirfoddol a chymunedol. Gweinyddir y cynllun ar ran Bwrdd yr Iaith gan IAITH.

Mae canfyddiad yn bodoli, yn seiliedig ar dystiolaeth anecdotaidd, bod siaradwyr Cymraeg a dysgwyr wedi eu tangynrychioli o fewn Cymunedau'n Gyntaf. Er nad oes dystiolaeth nac ymchwil gadarn i brofi na gwrthbrofi'r canfyddiad, mae'n destun pryder i nifer oddi fewn ac oddi allan i raglen Cymunedau yn Gyntaf, nad oes niferoedd a chanrannau uwch o siaradwyr Cymraeg a dysgwyr o fewn yr ardaloedd hynny yn cyfranogi yng ngweithgareddau'r partneriaethau lleol, nac yn dangos awydd i fod yn rhan o'r strwythurau rheoli. Mae nifer o ysgrifau ac adroddiadau wedi ceisio ymateb i'r diffyg cyfranogiad honedig, a nifer ohonynt wedi bod yn gymorth wrth lunio'r adroddiad hwn. Mae'r proffesiwn datblygu cymunedol yn cydnabod nifer o 'arfau' neu dechnegau all gael eu defnyddio er mwyn annog aelodau o'r gymuned i gyfranogi, ac mae'r cwestiwn wedi ei osod yn y gorffennol, oes modd cymhwyso'r arfau hyn i annog siaradwyr Cymraeg i gyfranogi, neu oes angen ymateb gwahanol a phenodol?

Er mwyn ceisio cynnig ateb rhannol i'r cwestiwn hwn, gofynnwyd i dri o Fentrau Iaith Cymru - Menter Iaith Sir Benfro, Menter Iaith Caerffili a Menter

laith Sir y Fflint - i lunio ysgrifau cryno yn ymwneud â'u profiadau nhw o geisio trefnu digwyddiadau o fewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, gan son am lwyddiannau a rhwystrau o ran denu siaradwyr Cymraeg i gyfranogi a mynychu. Yn ogystal, mae Rhwydwaith Gefnogi Cymunedau yn Gyntaf wedi ariannu ymchwil gan Menter a Busnes mewn partneriaeth gydag Estyn Llaw a chwmmi ymgynghorol Thomas, Jones & Batten. Lluniwyd adroddiad "Creu arfau ychwanegol i sicrhau cyfranogaeth siaradwyr Cymraeg yn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf" (Thomas, Jones & Batten) a oedd yn asesu arfer da ym maes cyfranogiad ar sail ddiwylliannol yng nghyd-destun datblygu cymunedol. Lluniwyd hefyd yr adroddiad "Denu Siaradwyr Cymraeg at Cymunedau yn Gyntaf" gan Cwmni laith sy'n asesu'r profiad o ddenu siaradwyr Cymraeg i gyfrannu mewn cylchoedd ar wahân i ddatblygu cymunedol. Ymgynghorwyd hefyd gyda 22 o Fentrau laith Cymru er mwyn adolygu eu profiad helaeth hwy o ddenu siaradwyr Cymraeg i gyfrannu mewn cylchoedd gwahanol. Crynhowyd eu mewnbwn mewn adroddiad gan Siwan Thomas ac Iwan Williams ar ran y Mentrau laith.

Diben y ddogfen hon yw asesu a thynnu casgliadau ac arferion da o ysgrifau'r Mentrau laith yn ardaloedd Caerffili, Sir y Fflint a Llanion, gan dynnu casgliadau yn ogystal o adroddiadau Thomas, Jones & Batten, Cwmni laith a Siwan Thomas/Iwan Williams, gan geisio awgrymu dulliau, technegau, arferion da ac arfau all gael eu defnyddio er mwyn gwneud Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn fwy perthnasol a deniadol i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr, gan fwrw golwg ar arfau cyfranogaeth mwy cyffredinol yn y maes datblygu cymunedol yn ogystal.

Mae rhai o'r argymhellion wedi eu hanelu at y Mentrau laith, gan awgrymu sut orau i weithio o fewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ac mae rhai o'r argymhellion wedi eu hanelu at bartneriaethau lleol a Rhwydwaith Gefnogi Cymunedau yn Gyntaf gan awgrymu sut orau i weithio gyda siaradwyr Cymraeg o fewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Mae'n werth cyfeirio at ddogfen 'laith Pawb' (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003) cyn mentro ymhellach. Mae 'laith Pawb' yn Gynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyeithog, sy'n datgan yn ddiamwys yn y rhagair gan y Prif Weinidog a'r Gweinidog Dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg :

"Mae teitl y ddogfen honno yn crynhoi ein deisyfiad - Cymru gwbl ddwyieithog, sef gwlad lle y gall pobl ddewis byw eu bywydau naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'r ddwy iaith a lle mae bodolaeth y ddwy iaith yn fater o falchder a chryfder i ni i gyd."

Er mwyn i hyn gael ei wireddu, mae'n hanfodol i bob sefydliad, pob mudiad, pob corff a chymdeithas - yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol neu gymunedol - i sylweddoli eu cyfrifoldebau ac i weithredu er mwyn cyflawni eu rhan nhw yn y broses o droi'r deisyfiad yn realiti. Does dim pwrpas ystyried laith Pawb fel strategaeth sy'n bodoli mewn gwagle. Yng nghyd-destun Cymunedau yn Gyntaf, er mwyn gwireddu laith Pawb, mae'n hanfodol i bartneriaethau lleol a'r Rhwydwaith Gefnogi ddeall beth a olygir wrth brif-

ffrydio'r Gymraeg i bob agwedd o'u gweithgareddau, ac i ymateb yn gadarnhaol ac yn rhagweithiol er mwyn cyflawni hyn. Nid Cynllun Gweithredu sy'n rhedeg yn gyfochrog â rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yw Iaith Pawb, ond Cynllun Gweithredu sy'n plethu ac yn ymgorddeddu i bob agwedd o'i gweithgaredd.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mynegi eu bod yn benderfynol o roi sylw teilwng i'r iaith Gymraeg o fewn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, ac yn disgwyl i'w holl bartneriaid ac asiantaethau gyflawni eu rhan er mwyn creu Cymru ddwyieithog. Mae strategaethau Llywodraeth y Cynulliad yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a Chymunedau yn Gyntaf yn ymrwymadau tymor hir sy'n cydfynd ac yn cefnogi ei gilydd drwy annog a hyrwyddo strategaethau a chynlluniau cymunedol. Wrth i bartneriaethau lleol Cymunedau yn Gyntaf fabwysiadu dwyieithrwydd ar raddfa ehangach, bydd yn ddull effeithiol o gyflawni amcanion rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Yn ôl y ddogfen Ateb yr Her (Estyn Llaw / Menter a Busnes 2006) :

“Mae cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn mynd i fod yn ddull effeithiol o gyflawni amcanion Cymunedau yn Gyntaf, a thrwy weithredu'n ddwyieithog, parchu cyfle cyfartal a sicrhau cynhwysiant cymdeithasol, fe all partneriaethau a phrosiectau:

- *Gynyddu hyder a hunan-barch siaradwyr a chymunedau Cymraeg eu hiaith*
- *Cynnig cyfle i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a galwedigaethol*
- *Cyfrannu at les a safon byw aelodau'r gymuned*
- *Cynnig cyfleoedd economaidd newydd*
- *Gwella safon gwasanaethau cyhoeddus*
- *Hyrwyddo cyfranogaeth ac annog dinasyddiaeth weithredol”*

Mae dros 580,000 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn ôl cyfrifiad 2001, sef mwy nag un ym mhob pump o'r boblogaeth (20.8%), ac mae mwy nag un ym mhob pedwar (28.4%) yn meddu ar rywfaint o sgiliau Cymraeg, sef dros 800,000 o'r boblogaeth. Mae'r cymunedau gyda'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yn dueddol o fod yng Ngogledd Orllewin, Gorllewin Canolbarth a De Orllewin Cymru, ond mae niferoedd sylweddol iawn o siaradwyr Cymraeg ym mhob rhan o Gymru, er nad yw'r canrannau bob amser yn adlewyrchu hynny. Does dim un ward etholiadol yn unrhyw le yng Nghymru gyda llai na 5% o'i phoblogaeth yn siarad Cymraeg, a gobaith Llywodraeth y Cynulliad yw gweld partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn ymateb i ddyheadau ac anghenion siaradwyr Cymraeg a siaradwyr di-Gymraeg o fewn eu cymunedau.

Mae'n bwysig cydnabod yn ogystal bod iaith yn fwy na dull o gyfathrebu yn unig. Yn ôl J. Aitchison & H. Carter (1994)

“Language is much more than a means of communication. Not only does it carry a view of the environment... but through its vocabulary and its structures, through the associations generated by its literature, through the symbol which it is and the symbols which it transmits, it

creates a distinct identity which is at once a derivative of tradition and an expression of the present.”

Mae iaith yn ymwneud â hunaniaeth, diwylliant a gwedd cymdeithasol. O ganlyniad, os am estyn allan at siaradwyr Cymraeg, eu cynnwys yng ngweithgaredd Cymunedau yn Gyntaf, a sicrhau eu cyfranogiad wrth anelu i gyflawni amcanion Cymunedau yn Gyntaf, un o'r dulliau gorau o wneud wneud hynny yw trwy gyfrwng eu hiaith eu hunain.

Diben y ddogfen hon yw edrych ar ddulliau o gyflawni hyn gan amlygu enghreifftiau o arfer da.

Diffinio Arfau Cyfranogaeth

Yn ei ystyr symlaf ac o fewn cyd-destun Cymunedau yn Gyntaf a'r Gymraeg, gellid diffinio Arfau Cyfranogaeth yn nhermau dulliau o godi hyder, ymrymuso ac annog siaradwyr Cymraeg i ymwneud â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, gan gymryd rhan yn yr ymgynghoriadau, y strwythurau rheoli lleol, neu yn y rhaglen waith a'r cynlluniau sy'n deillio o'r rhaglen.

Er mwyn medru cynyddu cyfranogaeth ar lefel gymunedol, mae'n bwysig ceisio diffinio 'Cymuned'. I nifer o siaradwyr Cymraeg, mae'r term 'Cymuned' yn un estron, neu yn air gwneud, sy'n gyfieithiad uniongyrchol a thrwsgl o 'Community' yn yr iaith Saesneg. Mae'r termau 'Cymuned' a 'Community' mewn peryg o gael eu gorddefnyddio fel rhan o 'jargon' dechrau'r unfed ganrif ar hugain, heb unrhyw ystyriaeth i wir ystyr y geiriau. Mae'r ffaith bod termau fel bro, milltir sgwâr, cymdogaeth, cymdeithas a chymundeb yn bodoli yn y Gymraeg ymhell cyn i'r term 'cymuned' gael ei greu, geiriau sy'n amhosib i'w cyfleu yn uniongyrchol yn Saesneg, yn awgrymu bod siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd perthynas pobl â'i gilydd, ac o gyfrifoldeb pobl at ei gilydd - ond dyw'r cysyniad ddim o reidrwydd yn gyfyngedig i ardal ddaearyddol benodol.

Mae'n bosib bod y pwynt hwn yn mynd at graidd y broblem sy'n ein hwynebu wrth geisio cael siaradwyr Cymraeg i ymwneud â rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar raddfa eang. Mae'r diffiniad o 'Gymuned' yn yr achos yma wedi ei ddiffinio ar ein cyfer, ar ffurf ffiniau wardiau etholiadol, gwleidyddol caeth - ac mae'n bosib nad yw trigolion Cymraeg eu hiaith yn yr ardaloedd hyn, mwy na phobl eraill, yn adnabod nac yn uniaethu gyda'r diffiniad.

Mewn ardal wledig lle mae'r Gymraeg yn iaith bob dydd, mae'n bosib bod cymdeithas yn seiliedig ar nifer o bentrefi sy'n croesi ffiniau 'gwleidyddol'. Mewn cyd-destun mwy trefol, dinesig a phoblog, mae'n bosib bod cymdeithas, i rai siaradwyr Cymraeg, yn seiliedig ar rwydweithiau iaith ac ardal ddaearyddol sydd yn croesi ffiniau nifer o wardiau 'gwleidyddol'. I ddibenion yr adroddiad hwn, gan ein bod yn ymdrin â, ac yn derbyn y teitl 'Cymunedau yn Gyntaf', bydd y term 'Cymuned' yn cael ei arddel yn yr un cyd-destun â bro, ardal a chymdeithas.

Mae nifer o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn gweld yr angen iddyn nhw gryfhau eu delwedd ddwyieithog er mwyn medru apelio at siaradwyr Cymraeg, ac mae nifer o adnoddau wedi eu cynhyrchu gan Rwydwaith Gefnogi Cymunedau yn Gyntaf er mwyn annog y broses hon :

Sesiynau Blasu Cymraeg: 6 sesiwn 'blasu' fydd yn ennyn diddordeb trigolion rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru i ddilyn cyrsiau dysgu Cymraeg ffurfiol, a gobeithio yn agor y drws i nifer o oedolion i chwilio am gyrsiau addysg ffurfiol yn gyffredinol.

Ateb yr Her: 10 o daflenni gwybodaeth sy'n ganllaw cychwynnol i bartneriaethau sy'n awyddus i ehangu eu defnydd o'r Gymraeg

Canllaw ar Lunio Proffil Iaith Cymunedol: Sut i gasglu gwybodaeth yn lleol fydd yn mapio patrymau a thueddiadau ieithyddol yr ardal, gan nodi disgwyliadau a dyheadau siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd. Yn ogystal, mae'n pwysleisio'r pwysigrwydd o weithredu ar y canfyddiadau hyn.

Cymunedau'n Siarad - Cymunedau yn Gyntaf a'r Iaith Gymraeg: Arweiniad i swyddogion a chydlynwyr y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar y pynciau allweddol perthnasol i weithredu dwyieithrwydd yng Nghymru.

Mae perygl bob amser mai'r partneriaethau sydd fwyaf angen y gefnogaeth a'r cymorth sydd leiaf ymwybodol o'u gwendidau a'u methiannau. Y canlyniad yn ddi-os yw bod siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hynny yn cael eu hesgeuluso, eu heithrio a'u cau allan o'r broses o ddatblygu eu bröydd.

Os ydym yn gosod disgwyliad ar bartneriaethau lleol Cymunedau yn Gyntaf i brif-ffrydio'r Gymraeg i bob agwedd o'u gweithgareddau, mae'n hanfodol bwysig hefyd i holl aelodau a phartneriaid Rhwydwaith Gefnogi Cymunedau yn Gyntaf a chyrff allweddol eraill megis Cyngorau Sir a Chyngorau Gweithredu Gwirfoddol Sirol i wneud yn yr un modd. Dyw hi ddim yn deg nac yn realistig i ddisgwyl i Menter a Busnes gynnal yr agenda Gymraeg ar eu pennau eu hunain; mae'n hollbwysig fod pob un aelod o'r Rhwydwaith Gefnogi yn ymwybodol o gynllun iaith Rh.G.C.G. ac yn gweithredu amrywiol elfennau'r cynllun iaith, gan arwain drwy esiamp. Er enghraifft, mae'n hanfodol iddynt sicrhau delwedd gwbl ddwyieithog er mwyn arddangos agwedd gynhwysol a pherthnasol i siaradwyr Cymraeg.

Egwyddorion Cyffredinol

Mae **Polisi Iaith Rhwydwaith Gefnogi Cymunedau yn Gyntaf** yn nodi bod cynhwysedd a chyfranogaeth yn themâu allweddol yng nghynllun busnes y Rhwydwaith Gefnogi ac yn egwyddor sylfaenol ym mhob cefnogaeth a ddarperir, a bod disgwyl i bob partner yn y Rhwydwaith a'u staff ddilyn gofynion sy'n adlewyrchu o leiaf lefel sylfaenol o arfer da derbyniol o safbwynt yr iaith Gymraeg a dwyieithrwydd. Mae'r polisi yn cynnig sail ar gyfer arfer da ar draws sbectwm eang o waith partneriaid, ond fe'i hystyrir yn orfodol go gyfer unrhyw weithgaredd sydd wedi ei gyllido neu ei rannol gyllido gan y Rhwydwaith Gefnogi, e.e. staff, prosiectau, digwyddiadau.

Mae datganiad o fwriad y Rhwydwaith Gefnogi yn nodi ymhellach :

“Bydd Rhwydwaith Gefnogi Cymunedau yn Gyntaf yn mabwysiadu dwyieithrwydd fel arfer normal ac yn gweithredu mesurau i sicrhau bod ei gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru yn y Gymraeg a'r Saesneg.”

Wrth sôn am yr egwyddor o weithredu'r polisi, dyma a ddywedir :

“Bydd holl wasanaethau cyffredinol y Rhwydwaith i'r cyhoedd yn cael eu darparu'n ddwyieithog, yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan gynnal yr un safonau yn y ddwy iaith. Bydd gwasanaethau a ddarperir i unigolion yn cael eu darparu yn dewis iaith yr unigolyn fel sy'n addas, a defnyddir pob cyfle i gynnig dewis iaith yn weithredol yn hytrach nag ymateb i geisiadau yn unig.”

Âr polisi yn ei flaen i fanylu ynglŷn ag elfennau megis delio gyda'r cyhoedd Cymraeg, wyneb cyhoeddus y rhwydwaith, adnoddau, arweiniad i staff, monitro/gwerthuso, a chwynion, sy'n benawdau arferol mewn cynllun iaith safonol. Y gamp i aelodau'r Rhwydwaith Gefnogi yw sicrhau nad polisi ar bapur yn unig yw hyn, ond cynllun gweithredol sy'n cael ei arddel yn rhagweithiol er mwyn cynnig cyfle cyfartal i siaradwyr Cymraeg i fod yn rhan o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae hefyd yn bwysig i aelodau'r Rhwydwaith Gefnogi arwain drwy esiampl, gan annog y partneriaethau lleol i gymryd camau fydd yn eu galluogi i weithredu yn ddwyieithog er mwyn denu mwy o siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i gyfranogi.

Yn ystod mis Chwefror 2007, lanswyd dogfen gan Datblygu Cymunedol Cymru, Cymunedau yn Gyntaf a Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r enw **Fframwaith Strategol Genedlaethol ar gyfer Datblygu Cymunedol yng Nghymru**. Ceir rhagair gan y gweinidog â chyfrifoldeb dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ac o fewn yr adran ar y Cyd-Destun Diwylliannol ac Ieithyddol nodir bod :

“...Cymru'n wlad ddwyieithog, ac mae angen i weithgaredd datblygu cymunedol ddeall a chydabod hynny'n ymarferol. Ar ei symlaf, mae

hyn yn golygu caniatáu i bobl gyfranogi yn yr iaith a ddewisant, gan weithio'n gynhwysol."

Âr cyhoeddiad yn ei flaen i ddyfynnu un o'r canfyddiadau a gododd mewn gweithdy, dyfyniad sy'n mynd i galon materion dwyieithrwydd, cynhwysiant a chhydraddoldeb:

"Mewn cymunedau dwyieithog, all mentrau uniaith ddim ond cael effaith negyddol."

Yn eu dogfen **Dyfarnu Grantiau, Benthyciadau a Nawdd – Materion yn Ymwneud â'r Gymraeg** mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn nodi'r disgwyliadau sydd ar gyrff gwirfoddol a chymunedol sy'n derbyn cyllid sy'n deillio o ffynonellau cyhoeddus o ran gwneud defnydd priodol o'r iaith Gymraeg. Yn ôl y cyflwyniad i'r ddogfen :

"Dylai cyrff cyhoeddus sydd â chynlluniau iaith Gymraeg fabwysiadu'r arferion a'r egwyddorion a amlinellir yn y ddogfen hon. Mae'n disgrifio sut y dylent sicrhau bod mudiadau gwirfoddol a sefydliadau preifat sy'n derbyn grantiau, benthyciadau, nawdd neu arian arall yn gwneud defnydd priodol o'r Gymraeg pan fyddant yn ymgymryd â gweithgareddau yng Nghymru."

Mae'r ddogfen yn manylu ynglŷn â'r disgwyliadau :

"Mae'r cyngor hwn yn berthnasol yn unig i weithgareddau sy'n cael eu hariannu gan grantiau..." [yn cynnwys benthyciadau, nawdd ac arian arall.] "... ac sydd wedi eu hanelu at y cyhoedd yng Nghymru. Mae'r gweithgareddau hynny'n cynnwys darparu nwyddau a gwasanaethau; trefnu gweithgareddau y mae'r cyhoedd yn cymryd rhan ynddynt; dosbarthu deunydd printiedig a chyhoeddi gwefannau."

Mae siaradwyr Cymraeg, ar y cyfan, yn teimlo'n fwy cyfforddus a chartrefol os gallant gyfranogi yn eu priod iaith. Mae arwyddocâd yr ymdeimlad o fod yn 'gyfforddus' yn cael ei adleisio gan gynrychiolydd o Rwydwaith Bobl Croenddu Sector Gwirfoddol Cymru sy'n son am bwysigrwydd cyfarfod ag aelodau grŵp mewn man 'diogel'. (Adroddiad Thomas, Jones & Batten Gorffennaf 2003) Mae 'diogel' yn gallu golygu lleoliad sy'n llythrennol ddiogel neu yn lleoliad lle mae pobl yn teimlo'n gyfforddus ac yn gartrefol.

Mae siaradwyr Cymraeg yn teimlo eu bod yn fwy rhugl ac yn medru cyfleu eu hunain yn well os oes cyfle i wneud hynny yn eu dewis iaith. Os nad oes dewis iaith yn cael ei gynnig, ac os oes disgwyliad iddynt gyfrannu mewn iaith arall, mae'n bosib na fydd siaradwyr Cymraeg yn cyfranogi o gwbl ac yn cilio neu yn cadw draw. Mewn gwirionedd, drwy fethu a darparu dewis iaith, bydd partneriaethau lleol Cymunedau yn Gyntaf wedi allgau ac eithrio siaradwyr Cymraeg rhag cyfranogi ac wedi methu a chynnig cyfle cyfartal i siaradwyr Cymraeg o fewn y rhaglen oherwydd diffyg ystyriaeth a diffyg sensitifrwydd iaith."

Yn ei gyhoeddiad **Agor Dau Ddrws** [2001, Ioan G; *Agor Dau Ddrws – Cyflwyniad i waith ieuenctid dwyieithog*; Caerffili: Cyngor Ieuenctid Cymru/Bwrdd yr Iaith Gymraeg.] mae Gareth Ioan yn adnabod tri ffactor sy'n hwyluso cyfranogaeth siaradwyr Cymraeg a Saesneg o fewn y gwasanaeth ieuenctid :

- Iaith a chyfle cyfartal
- Creu amgylchedd sy'n galluogi
- Darpariaeth cyfrwng Cymraeg cyfochrog – sef cynnal gweithgareddau yn y Gymraeg yn ogystal ag yn ddwyieithog ac yn Saesneg

Mae'r elfennau hyn yn bethau sy'n cael eu hadleisio yn y canfyddiadau yn sgil y gweithgareddau a fanylir arnynt yn y bennod Prosiectau Peilot / Gweithgareddau a Hwyluswyd.

Ymhlith yr enghreifftiau a nodir lle mae lefelau cyfranogiad siaradwyr Cymraeg yn uchel ac yn gyson o fewn y gymdeithas, mae Theatr Felin-fach sy'n gweithredu o fewn y diwylliant lleol yn Gymraeg, gan droi at y Saesneg pan fo angen - nid er mwyn cyfieithu'r hyn sy'n digwydd - ond er mwyn dehongli a hwyluso gweithgareddau gan esbonio tarddiad, arwyddocâd a chyd-destun gweithgareddau i aelodau di-Gymraeg y gymdeithas. Mae'r arddull hyn wedi llwyddo i feithrin perchnogaeth gymunedol gref iawn, sy'n llwyddo i sicrhau cyfranogiad parhaus a deinamig cymdeithasol iach iawn.

Nodir hefyd o fewn adroddiad **Agor Dau Ddrws**, brofiadau mudiadau oedd yn ei chael hi'n anodd apelio at siaradwyr Cymraeg nes iddynt gyflogi swyddogion datblygu dwyieithog, dechrau a chynnal gweithgareddau yn y Gymraeg yn ogystal ag yn ddwyieithog ac yn Saesneg. Yn ôl yr adroddiad :

“Allwedd y llwyddiant oedd bod yr hwyluswyr o fewn y mudiad yn arddel egwyddorion proffesiynol cadarn ac yn barod i weithio gyda'r bobl ifanc ar eu telerau eu hunain, ac roedd hynny yn cynnwys iaith.”

Mae'r cyhoeddiad yn mynd yn ei flaen i nodi canllawiau sydd wedi eu cyhoeddi er mwyn cynnig :

“...cyngor ymarferol ar sut i ddarparu gwasanaeth croesawgar a chartrefol i siaradwyr Cymraeg mewn sefyllfaedd anodd.”

Mae'r cyhoeddiadau isod yn ganllawiau anhpegorol i unrhyw unigolyn neu fudiad sydd eisiau deall pam fod gweithredu mewn un iaith yn allgáu ac yn eithrio aelodau dwyieithog cymuned, gan gynnig cyngor ar sut i fod yn gynhwysol ac yn groesawgar.

2003, Howys S & Ioan G; *Iechyd Da! cyflwyniad i ymwybyddiaeth iaith yn y maes gofal iechyd*; Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru/GIG Cymru.

1999, Ioan G; *Law yn Llaw: rheoli mewn amgylchedd ddwyieithog*; Caerdydd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

1999, *Iaith mewn Gwasanaeth Gofalgar*, Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

1994 a 2001, *They All Speak English Anyway – Yr Iaith Gymraeg ac Ymarfer Gwrth-orthrymol*, Caerdydd: CCETSW.

Ar ddiwedd adroddiad **Agor Dau Ddrws**, mae'r awdur yn nodi cyfres o gasgliadau, ac mae nifer o'r casgliadau hyn yn adlewyrchu yn agos iawn yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn ar ddiwedd pennod Adnabod Cryfderau a Goresgyn Rhwystrau :

- arddel dwyieithrwydd cyffredinol
- gweithredu'n uniaith Gymraeg gyda grŵp penodol o siaradwyr Cymraeg
- adnabod rhwydweithiau lleol Cymraeg
- uniaethu eich hunan gyda'r gymuned Gymraeg leol
- defnyddio cyfryngau cyfathrebu perthnasol i rwydweithiau Cymraeg lleol
- defnyddio gweithgareddau sy'n ddiwylliannol arwyddocaol
- defnyddio iaith, ieithwedd a chywair priodol
- defnyddio technegau dychmygus o ymgynghori â'r gymuned
- cynnig cyfleoedd uniaith Gymraeg yn gyfochrog â chyfleoedd dwyieithog neu Saesneg
- penodi swyddogion datblygu neu swyddogion cyswllt Cymraeg eu hiaith
- cefnogi'r defnydd o Gymraeg mewn gweithgareddau dwyieithog yn rhagweithiol

Engbreiffiau o Arfau Cyfranogaeth

Adroddiad Thomas, Jones & Batten

Yn eu hadroddiad i Menter a Busnes yng Ngorffennaf 2003, mae Thomas, Jones & Batten yn amlinellu rhai technegau cyffredinol all gael eu defnyddio er mwyn annog cyfranogaeth, heb fod yn arfau penodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Gyda chaniatâd Menter a Busnes, mae'r adran honno o'r adroddiad "Creu Arfau Ychwanegol i Sicrhau Cyfranogaeth Siaradwyr Cymraeg yn Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf" wedi ei hatgynhyrchu yma :

Y mae nifer fawr o dechnegau cyfranogaeth wedi eu datblygu dros y blynyddoedd diwethaf, ac y maent yn arfau grymus a defnyddiol ond gwelir eu gwir werth pan yn eu defnyddio fel rhan o broses sydd ynddi ei hun yn gyfranogol. Mae nifer o'r technegau yma yn cael eu defnyddio i gynnal "Participatory Appraisals" ac wedi eu datblygu yng ngwledydd Affrica ac India er mwyn hybu cyfranogaeth pobl gynhenid. Oherwydd hyn mae'r technegau wedi eu datblygu i fod yn rhai gweledol iawn (oherwydd eu defnydd gyda phobl sydd ddim yn darllen nag ysgrifennu) felly yn fywiog a hwyliog i gymryd rhan ynddynt. Yr elfen bwysig arall yw nad yw'n bosibl i bobl "fethu" gyda'r gweithgareddau yma - dulliau o hel gwybodaeth ydynt yn bennaf ac mae pawb yn cael y cyfle i gymryd rhan.

Gweler isod restr o'r arfau . Pwysleisir na ddylid defnyddio'r arfau heb i'r hwyluswyr gael hyfforddiant yn eu defnyddio gan eu bod yn dechnegau pwerus iawn ac yn ennyn nid yn unig diddordeb grwpiau ond hefyd teimladau cryfion ac felly rhaid eu defnyddio yn ofalus a phriodol o fewn proses gadarn. Y mae arbenigwyr ar gael sydd yn gyfarwydd â'r technegau hyn i gyd ac fe fyddai eu profiad yn allweddol i unrhyw gymuned/grŵp a fyddai eisiau rhoi cynnig ar ddefnyddio'r arfau.

1. Mapio cymunedol
2. Teithiau cymunedol
3. Llinellau amser
4. Matrics blaenoriaethu a sgorio
5. Diagramau Venn
6. Siartiau Llif a rhwydweithiau
7. Holiaduron
8. Gweledigaeth Gymunedol
9. "Planning for Real"
10. Cynllunio gweithredol
11. Rheithgorau dinasyddion
12. Arfarniadau cymunedol
13. Gweithdai a grwpiau ffocws
14. Chwylbro

Trafodir yn awr pob un o'r arfau yn unigol gyda disgrifiad byr o'r gweithgaredd a hefyd awgrymu sut y gellir eu defnyddio gyda grwpiau a chymunedau Cymraeg yng nghyd-destun rhaglen Cymunedau'n Gyntaf.

Y mae nifer o'r arfau yn rhai y gallai'r Mentrau Iaith eu defnyddio ac yna eu cyflwyno i'r Partneriaethau. Fe fyddai hyn yn dangos dawn y mentrau a'r cymunedau Cymraeg i drefnu eu hunain mewn ffordd eithaf arloesol ac yn addysgu'r Partneriaethau hefyd.

1. Mapio Cymunedol

Gofynnir i aelodau grwpiau lunio map o'u hardal/bro fesul pedwar neu bump, gan ddangos beth sydd yn bwysig iddynt yn y cymunedau hynny. Y mae yn ysgogi trafodaethau brwd ac yn gryn hwyl hefyd!

Yna mae'r unigolion yn dangos, gyda sticeri bychan, beth y maent yn eu hoffi am yr ardal, beth nad ydyn nhw yn ei hoffi a beth yr hoffent ei newid. Ceir trafod manwl eto ac y mae yn creu darlun diddorol iawn o gymuned o safbwynt y trigolion.

Fe fyddai creu mapiau fel hyn gyda siaradwyr Cymraeg mewn ardal yn fodd i addysgu Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf am sut y mae'r siaradwyr Cymraeg yn gweld eu cymuned.

2. Teithiau Cymunedol

Dyma weithgaredd sydd yn ymddangos yn syml ond yn effeithiol iawn ac yn gofyn am drefnu manwl. Trefnir taith gerdded/bws mini mewn ardal fel gweithgaredd lled gymdeithasol gan sicrhau fod y daith yn ymweld â mannau sydd yn ysgogi trafodaethau ar bynciau megis:

- Defnydd tir
- Adnoddau ffisegol
- Adeiladau
- Perchnogaeth yr uchod
- Hanes yr ardal
- Cyfleoedd posibl
- Potensial yr ardal

Gellir gwneud hyn o safbwynt ieithyddol, gydag aelodau'r gymuned Gymraeg i ddechrau ac yna hefo'r gymuned ehangach a'r bartneriaeth leol. Beth am drefnu taith fel hyn ar gyfer aelodau'r Bartneriaeth?

3. Llinellau Amser

Defnyddir bwrdd hir i lunio llinell ac arni ddyddiadau e.e. 1903 – 2003 fesul degawd. Gwahoddir wedyn aelodau'r gymuned i nodi digwyddiadau pwysig o fewn y gymuned ar y llinell amser. Y mae hyn yn addysgiadol iawn ac yn ysgogi trafodaeth frwd – “pa bryd yn union agorwyd y pwll/chwarel/ffatri? – pa bryd y caeodd y capel/dafarn/ysgol/siop?

Gellir creu un llinell amser ieithyddol cynhwysfawr gyda nifer o grwpiau Cymraeg- plant /oedolion/ henoed i gael darlun personol o newid cymdeithasol.

4. Matrics Blaenoriaethu a Sgorio

Dulliau o osod prif bynciau trafod cymuned mewn trefn o ran eu pwysigrwydd i'r gymuned. Gellir gwneud hyn mewn dwy ffordd sydd yn dod a theimladau'r grŵp i'r amlwg yn eglur iawn. Gofynnir am restr o'r prif bynciau llosg gan gyfyngu pobl i 4 neu 5. Rhestrir y rhain ac yna fe ofynnir i aelodau'r grŵp i nodi eu blaenoriaethau trwy lynu sticeri bychan yn erbyn y pwnc sydd bwysicaf iddynt hwy. Y mae rheolau ynglŷn â sawl sticer sydd gan bob unigolyn, fel arfer 5. Gellir taro 5 ar yr un pwnc pe dymunant neu eu gwasgaru.

Isod dyma enghraifft o weithgaredd mewn pentref ar ddefnydd o dir diffaith yng nghanol y pentref:

Parc	***** ***** ***** ***** ***** ***
Tai	***** **
Cae pêl droed	***** ***** ***** *****
Maes sglefr fyrddio	***** ***** ***** *
Defnydd diwydiannol	*****

Y cam nesaf yw edrych sut y mae'r dewisiadau yn cael eu blaenoriaethu petai'n rhaid dewis rhyngddynt fesul dau:

Dewis	Parc (P)	Tai (T)	Cae Peldroed (CP)	Maes sglefr fyrddio (MS)	Defnydd Diwydiannol (DD)
Parc (P)	P	P	P	P	P
Tai(T)	P	T	CP	MS	T
Cae Peldroed (CP)	P	CP	CP	MS	CP
Maes sglefrfyrddio(M)	P	MS	MS	MS	MS
Defnydd diwydiannol (DD)	P	T	CP	MS	DD

Sgôr:

Parc – 9
 Maes sglefr fyrddio - 7
 Cae pêl droed - 5
 Tai – 3

Defnydd diwydiannol –1

Y mae 6 o themâu o fewn rhaglen Cymunedau'n Gyntaf, gellir defnyddio'r arf hwn i weld beth yw blaenoriaethau'r gymuned Gymraeg.

5. Diagramau Venn.

Techneg yw hon i ddarganfod pa wasanaethau sydd yn bwysig i'r gymuned a pha mor anodd/hawdd yw eu cael.

Yn gyntaf gwneir smotyn ynghanol papur maint A1 ar fwrdd i gynrychioli'r gymuned /ardal/pentref. Yna rhoir nifer o gylchoedd o faint gwahanol i unigolion a gofyn iddynt nodi ar y cylchoedd y gwasanaethau sydd yn bwysig iddynt hwy, ac i ddefnyddio maint y cylch i nodi pa mor bwysig ydynt. Cylch mawr = pwysig.

Gofynnir iddynt wedyn ddangos ar y papur pa mor hawdd yw cael/cyrraedd y gwasanaeth, os yw'n agos yna y mae'r cylch ar ymyl y smotyn, os yw'n bell y mae'r cylch ymhellach i ffwrdd o'r smotyn.

Y mae'r gweithgaredd yn gweithio yn well wrth ei wneud nifer o weithiau gyda grwpiau penodol ee plant, pobl ifanc/henoed.


Ceir darlun diddorol iawn wedyn o wasanaethau a pha mor gyraeddadwy ydynt gan nifer o unigolion o fewn grwpiau gwahanol yn y gymuned.

Pa wasanaethau sydd yn bwysig i siaradwyr Cymraeg? A oes modd cyplysu'r bylchau/gwendidau yn y ddarpariaeth gyda rhaglen Cymunedau'n Gyntaf?

6. Siartiau Ilif a rhwydweithiau

Arf i ddarlunio pa gysylltiadau sydd yn bodoli rhwng un garfan o'r gymuned a charfannau a sefydliadau eraill, a beth yw'r pynciau llosg sydd yn eu hwynebu.

Gweler isod enghraifft a wnaed gan grŵp o bobl mewn oed mewn ardal wledig o Gymru:



Fe fyddai rhwydwaith fel hyn o safbwynt siaradwyr Cymraeg yn canolbwyntio sylw ar y pynciau llosg.

7. Holiaduron

Dyma'r dechneg fwyaf ei defnydd yn draddodiadol i gasglu gwybodaeth ond mae'n rhaid eu llunio a'u defnyddio yn ofalus. Y mae llunio trefn o ddsbarthu a chasglu yn ychwanegu at effeithiolrwydd yr ymarferiad a hefyd yn rhoi cyfle i gael trafodaeth gyda'r sawl sydd yn cael eu holi.

Y mae holiaduron yn rhan o'r broses o broffilio ardal yn ieithyddol, a oes modd cynnig arolwg o'r math i Bartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf?

8. Creu Gweledigaeth Gymunedol

Arf yw hon sydd yn defnyddio proses tymor canolig i'w gweithredu. Y mae yn ddibynnol ar weithio hefo grŵp dros nifer o sesiynau i greu

gweledigaeth o ddyfodol y gymuned y maent hwy yn byw ynddi. Gall y weledigaeth honno gael ei mynegi mewn nifer o ffyrdd e.e.

- Datganiad ysgrifenedig
- Dogfen gynhwysfawr
- Darlun
- Cynllun/map
- Proffil cymunedol

O wneud hyn hefo aelodau'r gymuned Gymraeg gellir eu cyflwyno i themâu ac egwyddorion Cymunedau'n Gyntaf.

9. "Planning for Real"

Dyma dechneg benodol iawn sydd yn gallu annog cyfranogaeth nifer fawr o unigolion a grwpiau o'r gymuned. Er mai arf ar gyfer edrych ar gymuned yn ffisegol/amgylcheddol yw hwn yn y bôn, mae yn annog cyfranogaeth eang ac yn sbarduno trafodaethau a syniadau.

Mae yn broses tymor hir gan fod model 3-D o'r ardal/fro/gymuned yn cael ei wneud, ac yna mae'r gymuned yn cael cyfle i weld y model ac i'w ddefnyddio fel maes trafod syniadau.

Mae hawlfraint ar y broses hon ac mae'n rhaid defnyddio hwyluswyr cofrestredig.

Yn gyffredinol, ysgolion sydd yn gwneud y model, fe fyddai yn gyfle gwych i ysgol Gymraeg mewn ardal i ymgymryd â'r rhan yma o'r gwaith, ac felly yn eu gosod ynghanol y drafodaeth.

10. Cynllunio Gweithredol

Yma mae yna broses tymor canolig i gael cymuned i adnabod anawsterau ac yna i ddarganfod atebion. Mae yn golygu gweithio hefo grŵp o bobl dros tua 5 sesiwn i:

- Ddiffinio'r "broblem"
- Trafod opsiynau i'w goresgyn
- Pwyso a mesur a blaenoriaethu'r opsiynau
- Cynllunio ar gyfer gweithredu
- Darganfod cymorth i weithredu
- Arfarnu

Beth am ddefnyddio'r arf yma i ddarganfod sut y gall aelodau'r gymuned Gymraeg fanteisio ar raglen Cymunedau'n Gyntaf yn eu hardaloedd hwy?

11. Rheithgorau Dinasyddion

Syniad o'r Unol Daleithiau sydd yn defnyddio trefn y llysoedd i edrych ar broblem/sialens/angen o fewn eu cymunedau.

Mae yn dilyn trefn achos llys gydag amddiffyniad ac erlyniad yn siarad â'r hawl gan y ddwy ochr i alw tystion.

Dewisir rheithgor o blith y gymuned i farnu ar y mater.

Y mae'n fodd i dynnu sylw at bwnc ac i ennyn diddordeb y gymuned ond mae'n golygu trefnu manwl i'w weithredu.

Diddorol fyddai codi mater fel a ganlyn:

“Nid yw'r gymuned hon yn caniatáu cyfranogaeth lawn yn ei gweithgareddau gan ei holl aelodau.”

12. Arfarniad Cymunedol

Gweithgaredd eang yw hwn i ddarganfod beth sydd yn digwydd gan ddefnyddio nifer o'r arfau uchod. Casglu gwybodaeth yw'r unig nod.

Gall y Mentrau Iaith gynnig gwybodaeth am y Gymraeg a'r gymuned Gymraeg fel rhan o'r proffilio cyffredinol sydd yn digwydd o fewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

13. Grwpiau Ffocws

Grwpiau bychain yw'r rhain sydd yn cael eu harwain gan hwyluswyr profiadol gyda'r bwriad o gael barn gyffredinol ar bwnc penodol. Trwy sgwrsio yn anffurfiol ceir blas ar y mater, a hefyd llawer iawn o wybodaeth gefndirol. Nid yw yn ceisio cael proffil, dim ond gwybodaeth ansoddol fel cefndir .

Y mae'r wybodaeth a ddaw o'r grŵp a'r dadansoddi a wneir ohono yn llwyr ddibynol ar arbenigedd a phrofiad yr hwylusydd.

Gellir defnyddio grwpiau o siaradwyr Cymraeg o fewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf i gael eu barn am y rhaglen ac yna ei gyflwyno i'r Bartneriaeth. Y mae hefyd yn fodd i godi ymwybyddiaeth am y pwnc ymysg y gymuned Gymraeg.

14. Chwylbro

Gêm fwrdd yw Chwylbro sydd yn annog trafodaeth ymysg grwpiau o siaradwyr Cymraeg am ddyfodol pentref dychmygol. Y mae yn gyfle i unigolion gael blas ar benderfynu sut y mae arian yn cael ei ddsbarthu i wahanol fudiadau a sefydliadau o fewn y pentref ac yn eu gorfodi i wneud penderfyniadau am ddyfodol y pentref ac i flaenoriaethu syniadau.

Y nod yw annog pobl i feddwl mwy am eu cymunedau eu hunain.

Defnyddir Chwylbro fel modd i gychwyn trafodaeth o fewn cymunedau Cymraeg am yr hyn sydd yn digwydd o'u mewn ac i annog cyfranogaeth yn y cymunedau go iawn.

Holiadur Mentrau Iaith Cymru

Lluniwyd adroddiad gan Siwan Thomas ac Iwan Williams fel rhan o'r gwaith yma, yn seiliedig ar holiadur o 22 o Fentrau Iaith Cymru a grëwyd er mwyn gwneud:

“Adolygiad o brofiad helaeth y Mentrau Iaith o ddenu siaradwyr Cymraeg i gyfrannu mewn cylchoedd gwahanol, fel rhan o brosiect i gryfhau cyfraniad siaradwyr Cymraeg o fewn Cymunedau'n Gyntaf”

Wrth grynhoi'r casgliadau ar ôl dehongli ac astudio'r ymateb a ddaeth i law, mae'r adroddiad yn cynnig syniadau amrywiol i unrhyw un sy'n chwilio am weithgareddau amgen o fewn eu cymdeithas, o flasw gwin a nosweithiau comedi i gynllun rocio a wreslo Americanaidd. Byddai'n werth i unrhyw un sy'n chwilio am achlysur 'gwahanol' ei naws i bori yn yr adroddiad. Ceir hefyd amrywiol dulliau o gyrraedd cynulleidfafa darged a hyrwyddo'r achlysur. Mae'r technegau hyn yn cynnwys y rhai arferol o bosteri a thafleuni ond hefyd yn cynnwys syniadau mwy gwreiddiol megis styntiau gweledol a dulliau allweddol o drafod a threfnu gyda'r grŵp targed ac o roi perchnogaeth i'r grŵp targed.

Unwaith eto mae prif gasgliadau'r adroddiad yn adlewyrchu'r canfyddiadau a geir yn yr adroddiad hwn:

- Annog cyfranogaeth o'r cychwyn cyntaf drwy gyswllt personol:

“...pan oedd cysylltiad personol wedi cael ei wneud o'r dechrau a bod unigolion o'r gymuned yn cael y cyfle i fagu perchnogaeth o'r syniad – roedd y prosiectau yn fwy llwyddiannus.”

- Chwilio am syniadau newydd a gwreiddiol yn hytrach na cheisio ail-sefydlu pethau :

“...roedd arwydd i’w weld bod prosiectau oedd wedi’u sianelu at ailsefydlu pethau yn aml yn methu â bod syniadau gwreiddiol a newydd yn aml yn fwy llwyddiannus.”

- Asesu anghenion a dyheadau amrywiol grwpiau o fewn y gymdeithas yn hytrach na thybio ein bod yn deall yr anghenion, ac annog y grwpiau hynny i drefnu’r achlysur eu hunain - gyda chyingor a chefnogaeth bwrpasol :

“Nifer o Fentrau wedi cynnal gweithgareddau amrywiol i ddysgwyr... Canlyniad? Niferoedd isel, dysgwyr ddim yn frwdfrydig. Serch hyn, mae’n werth nodi, bod y prosiectau oedd wedi gweithio gyda Dysgwyr wedi cael eu trefnu gan Ddysgwyr eu hunain neu wedi dod o (is-) bwyllgor Dysgwyr.”

Does dim diben ymhelaethu yma ar y prosiectau unigol a geir yn adroddiad y Mentrau Iaith, ond mae’n werth ei ddarllen er mwyn cael blas ar amrywiol weithgareddau ac amrywiol dulliau o drefnu a hyrwyddo’r gweithgareddau hynny.

Y nod yn y tymor byr yw gweld partneriaethau lleol Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru yn cymryd diddordeb, ac yn ysgwyddo rhan o faich a chyfrifoldeb trefniadau gweithgareddau Gymraeg a dwyieithog. Yn y tymor canolig dylai partneriaethau lleol Cymunedau yn Gyntaf anelu i drefnu ac arwain gweithgareddau eu hunain yn seiliedig ar ymgynghoriad trwyadl gyda’r siaradwyr Gymraeg a’r dysgwyr yn eu hardaloedd. Ni fyddai sefyllfa o’r fath yn atal y Mentrau Iaith rhag trefnu gweithgareddau yn ogystal, ond byddai’n atal sefyllfa lle byddai partneriaethau lleol Cymunedau yn Gyntaf yn cymryd yn ganiataol mai’r Mentrau ddylai drefnu unrhyw beth yn ymwneud â’r Gymraeg. Mae’n bwysig meithrin ethos a meddylfryd o fewn partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf lle mae cyfrifoldeb dros ddarpariaeth Gymraeg ac ymrwymiad i weithgareddau o’r fath yn dod yn rhan annatod o’u diwylliant mewnol.

Y Prosiectau Peilot / Gweithgareddau a Hwyluswyd

Gofynnwyd i dair Menter Iaith i drefnu gweithgareddau fyddai'n denu siaradwyr Cymraeg o fewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, gan lunio adroddiad cryno ar y dulliau a ddefnyddiwyd, y rhwystrau a brofwyd a'r gwersi a ddysgwyd, gan asesu llwyddiannau ac anawsterau'r achlysur. Mae'r adroddiadau a dderbyniwyd i'w gweld yn llawn yn Atodiad 1, Atodiad 2, Atodiad 3a ac Atodiad 3b ar ddiwedd y ddogfen hon.

Caerffili (Atodiad 1)

Yn ôl Cyfrifiad 2001, mae 11.2% o drigolion Sir Caerffili yn siarad Cymraeg sef 18,237 o bobl. Mae'r sir yn cynnwys nifer o wardiau difreintiedig a nifer o bocedi o amddifadedd, ac o fewn y sir mae 17 partneriaeth leol Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r canrannau mewn cromfachau yn dangos canrannau siaradwyr Cymraeg yn y wardiau hynny fel maen nhw'n ymddangos ar wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg mewn dogfen o'r enw **Nifer a Chanran Siaradwyr Cymraeg 3+ yn ôl Adran Etholiadol ac Oed** :

- Aberbargod (9.4%), Bargod (9.8%) a Gilfach (9.7%)
- Abertyswg
- Argoed (12.4%)
- Bargoed Fawr
- Cwm yr Aber (15.8%)
- Cwm Darran (11.1%)
- Cefn Fforest (11.0%)
- Gelligaer a Penybryn
- Gilfach (9.7%)
- Graig y Rhacca
- Hengoed (10.8%)
- Tredegar Newydd (7.1%)
- Parc Lansbury
- Pontlotyn (6.9%)
- Tiryberth a Glan y Nant
- Trinant
- Twyn Carno (10.8%) a Moriah (12.2%)

Er bod y canrannau a welir yma yn gymharol isel, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hyn yn sylweddol, gyda'r canrannau a nodir yn cyfateb i rai cannoedd o siaradwyr Cymraeg yn yr adrannau etholiadol, gyda dros fil o siaradwyr Cymraeg yn ward Cwm yr Aber. Mae'n bwysig cofio ystyried niferoedd siaradwyr Cymraeg yn ogystal â chanrannau oherwydd yn aml iawn mae'r ddau ffigur yn adrodd storiâu gwahanol iawn i'w gilydd.

Yng Nghaerffili, mae wedi bod yn flaenoriaeth gan y Fenter Iaith i gynnig darpariaeth a gweithgareddau ar gyfer y teulu cyfan. Mae'r gwaith gyda phlant a phobl ifanc, ynghyd â'r berthynas rhwng y Fenter a'r ysgolion wedi

datblygu yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn yr un modd mae gweithgareddau ar gyfer rhieni ac oedolion sy'n dysgu Cymraeg wedi cael eu darparu. Er mwyn datblygu'r 'gwaith teulu' a dwyn oedolion a phobl ifanc at ei gilydd mewn gweithgaredd ar y cyd, aed ati i holi teuluoedd ynglŷn â'u hanghenion o ran gweithgareddau cyfrwng Cymraeg.

Roedd y broses ymgynghori, ac wedyn yr ymgynghori pellach yn gwbl ganolog i'r broses gychwynnol, gan roi cyfle i bobl fynegi barn ynglŷn â'r math o weithgaredd, lleoliad addas, amser cyfleus ac ati.

Nodwyd cefnogaeth i weithgareddau fyddai'n apelio at bobl o amrywiol ardaloedd o fewn y sir, nid dim ond ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

O ran cyfrwng yr achlysur, nodwyd pwysigrwydd trefnu rhywbeth a fyddai'n apelio at rieni Cymraeg a di-Gymraeg, achlysur a fyddai'n meithrin dealltwriaeth ehangach a pharch tuag at yr iaith a'r diwylliant Cymraeg.

Yn ystod y broses ymgynghori, mynegwyd awydd i gael gweithgareddau chwaraeon, crefft, dawnsio a cherddoriaeth ar gyfer y bobl ifanc - ac mae'r Fenter Iaith yn cydnabod na ellid gorbwysleisio'r pwysigrwydd o sicrhau'r cyfle i bobl ifanc wneud y pethau hyn drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Mae'n rhaid profi nad iaith sy'n gyfyngedig i'r ystafell ddosbarth yw'r Gymraeg, ond iaith sy'n medru cael ei defnyddio ym mhob math o feysydd cymdeithasol. Roedd rhieni wedi mynegi awydd i gymdeithasu gyda rhieni eraill, i ymuno yn rhai o'r gweithgareddau gyda'r plant, a chael cyfle i ddysgu ac ymarfer eu Cymraeg mewn awyrgylch 'ddiogel', gan dderbyn gwybodaeth am wasanaethau a gwersi Cymraeg, a chael cyfle i brofi triniaethau megis 'aromatherapi' ac adweithyddiaeth neu '*reflexology*'.

Gwnaed penderfyniad i gynnal noson mewn Canolfan Hamdden yn y Bargod, un o wardiau ac ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf o fewn y sir. Y Fenter Iaith oedd prif drefnwyr y noson, gyda nifer o bartneriaid a budd-ddeiliaid ar y tîm cynllunio. Diddorol yw nodi nad oedd unrhyw gynrychiolaeth gan bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ar y tîm cynllunio. Mae'n bosib eu bod wedi cael gwahoddiad ond wedi methu a mynychu, mae'n bosib hefyd, o safbwynt 'perchnogaeth' y noson, nad oedd yr achlysur yn cael ei weld fel achlysur 'Cymunedau yn Gyntaf' ac am y rheswm hynny nad oedd gwahoddiad wedi ei gynnig.

Er mwyn hyrwyddo'r achlysur cynhyrchwyd posteri a thafleuni gwybodaeth, gan eu dosbarthu ledled y sir ym mhob ysgol a chylch meithrin, yn ogystal â meddygfeydd a chanolfannau cymunedol. Roedd gwybodaeth ar wefan y Fenter Iaith, yn ogystal ag yng nghylchlythyrau cyrff eraill.

Roedd cynrychiolwyr o'r mudiadau ar y tîm cynllunio wedi cynorthwyo i gynnal gweithgareddau ar y noson, ac yn ystod y broses cynllunio trefnwyd nifer o wirfoddolwyr i gyfrannu at reolaeth a gwerthusiad y prosiect.

Denwyd dros gant o bobl i'r achlysur, a chychwynnodd y broses werthuso yn ystod y noson, wrth i bethau ddigwydd. Bu'r ymateb yn gadarnhaol iawn, a chafwyd sylwadau adeiladol ynglŷn â'r achlysur.

Roedd y rhai a ymatebodd wedi nodi nad oedd unrhyw ddarpariaeth debyg yn bodoli o fewn y sir, a byddent yn hoffi gweld y peth yn troi'n achlysur rheolaidd. Roedd pobl wedi nodi bod amrywiaeth dda o weithgareddau oedd yn apelio at nifer o grwpiau oedran gwahanol, a bod y lleoliad yn ddigon 'diogel' er mwyn i rieni fedru canolbwyntio ar weithgaredd heb orfod poeni am ddiogelwch eu plant.

Roedd canmoliaeth i'r pris mynediad, ac i ansawdd y wybodaeth a roddwyd i'r teuluoedd. Nodwyd hefyd gellid fod wedi cychwyn y noson ynghynt er mwyn medru cynnwys plant iau, ac o bosib cynnal mwy o bethau yn y brif neuadd yn hytrach na gwasgaru gweithgareddau ar hyd y ganolfan hamdden.

Sir y Fflint (Atodiad 2)

Yn ôl Cyfrifiad 2001, mae 14.4% o'r trigolion yn siarad Cymraeg yn Sir y Fflint, sef 20,599 o bobl. Mae pum partneriaeth leol Cymunedau yn Gyntaf yn y sir. Mae'r canrannau mewn cromfachau yn dangos canrannau siaradwyr Cymraeg yn y wardiau hynny fel maen nhw'n ymddangos ar wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg mewn dogfen o'r enw **Nifer a Chanran Siaradwyr Cymraeg 3+ yn ôl Adran Etholiadol ac Oed** :

- Ystâd Bryn Gwalia
- Fflint – Castell (13.8%)
- Fflint Wledig
- Ystâd Shotton Uchaf (10.5% - Ffigwr am Ward Shotton Uchaf)
- Cymdogaethau Treffynnon
 - Treffynnon Canol (14.2%)
 - Treffynnon Dwyrain (17.4%)
 - Treffynnon Gorllewin (19.2%)

Mae'r canrannau uchod yn cyfateb i gannoedd lawer o siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hyn.

Mae Menter Iaith Sir y Fflint wedi bod yn cynnal gŵyl Ffiesta Sir y Fflint ers 2001 fel dathliad o'r iaith Gymraeg yn y sir. Mae'r trefnwyr wedi nodi bod prinder rhieni a phobl ifanc o ardaloedd Treffynnon a'r Fflint, felly nod y prosiect penodol hwn oedd ennyn diddordeb ymhlith trigolion ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf y sir, a threfnu bysus o'r ddwy dref i'r ŵyl yn Yr Wyddgrug.

Penderfynwyd targedu rhieni ysgolion Cymraeg Treffynnon a'r Fflint a'u hannog i drefnu a llenwi bysus eu hunain er mwyn cynyddu'r niferoedd fyddai'n mynychu'r Ffiesta o'r ddwy dref honno.

Llwyddwyd i lenwi'r ddau fws, gan arwain at niferoedd uwch yn mynychu'r Ffiesta, a chynrychiolaeth uwch o Dreffynnon a'r Fflint. Penderfyniad y rhieni oedd defnyddio rhwydwaith oedd yn bodoli'n barod, sef Cymdeithas Rhieni ac Athrawon er mwyn gwneud y trefniadau.

Mae'r adroddiad yn terfynu gan nodi mai staff y Fenter Iaith, nid y criw lleol, a drefnodd y bysus yn y pen draw, sy'n ychydig o siom i'r Fenter gan eu bod wedi gobeithio gweld sefydlu grŵp parhaol yn y cymunedau hynny a fyddai wedi medru gweithio dros y Gymraeg yn y dyfodol.

Ar yr ochr gadarnhaol, mae'r adroddiad yn nodi bod y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn gwybod mwy am raglen Cymunedau yn Gyntaf ers y prosiect, a'r gobaith yw gweld y partneriaethau lleol yn cynnal sesiynau a gweithgarwch yn y dyfodol ar y cyd gyda'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon fyddai'n gallu elwa ar sgiliau dwyieithog yr aelodau.

Llanion, Doc Penfro, Sir Benfro (Atodiad 3a a 3b)

Yn ôl Cyfrifiad 2001 mae 21.8% o drigolion Sir Benfro yn siarad Cymraeg, sef 23,967 o bobl. Mae dwy bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yn y sir, y ddau yn ardal Doc Penfro. Mae'r canrannau mewn cromfachau yn dangos canrannau siaradwyr Cymraeg yn y wardiau hynny fel maen nhw'n ymddangos ar wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg mewn dogfen o'r enw **Nifer a Chanran Siaradwyr Cymraeg 3+ yn ôl Adran Etholiadol ac Oed** :

- Monkton (12.3%)
- Llanion (12.7%)

Rhwng y ddwy ardal uchod mae dros 500 o siaradwyr Cymraeg, gyda bron i ddwy fil yn fwy o siaradwyr Cymraeg yn y cyffiniau agos (Doc Penfro, Penfro a Neyland)

Bu Menter Iaith Sir Benfro yn gyfrifol am gydlynu Twmpath Dawns yn ward Llanion ger Doc Penfro. Y cam cyntaf oedd galw ynghyd rhai unigolion allweddol oedd yn byw yn ward Llanion o fudiadau CYD, TWF a thiwtor/drefnydd Cymraeg i Oedolion yn yr ardal. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn swyddfa Cymunedau yn Gyntaf, gyda'r prif swyddog yn ymuno yn y drafodaeth, gan sicrhau bod y bartneriaeth yn ganolog i'r achlysur o'r cychwyn cyntaf.

Cytunwyd i geisio denu teuluoedd a phobl o bob oed i'r noson gan ddarparu Twmpath, gemau a gwobrau, consurio, dawnsfeydd, lluniaeth ysgafn a bar mewn clwb rygbi o fewn ward Llanion yn Noc Penfro. Dosrannwyd y cyfrifoldebau trefnu ymhlith nifer o unigolion, a pharatowyd poster a thafleuni i hyrwyddo'r noson. Dosbarthwyd y rhain yn eang mewn ysgolion, dosbarthiadau Cymraeg, canolfannau addysg, swyddfa Cymunedau yn Gyntaf, siopau, gwestai a thafarndai yn yr ardal.

Roedd pwyslais mawr ar ddefnyddio cysylltiadau personol y trefnwyr, gyda llawer o ffonio ac ymweliadau personol yn digwydd.

Penderfynwyd peidio codi tâl mynediad ond i baratoi tocynnau er mwyn mesur faint oedd wedi mynychu.

Ar y noson, llwyddwyd i ddenu 38 person, gydag 11 yn dod o ward Llanion. Roedd yr ymateb yn ffafriol iawn, gyda nifer yn nodi y byddent yn awyddus i fynychu achlysur tebyg yn y dyfodol.

Adnabod Cryfderau a Goresgyn Rhwystrau

Wrth geisio cloriannu profiadau'r Mentrau Iaith, dyma geisio dehongli a nodi rhai o'r egwyddorion a'r gwersi a ddysgwyd ynghyd â'r cryfderau a'r rhwystrau a brofwyd ganddynt wrth fynd ati i drefnu eu gweithgareddau. Mae rhai o'r gwersi ac egwyddorion yn berthnasol i bartneriaethau lleol Cymunedau yn Gyntaf a rhai yn fwy perthnasol i'r Mentrau Iaith :

Caerffili

Roedd Menter Iaith Caerffili yn ymwybodol o bwysigrwydd ymgynghori. Un o'r dulliau mwyaf effeithiol o wneud hynny yw drwy siarad yn uniongyrchol gyda'r bobl rydych yn ceisio eu denu er mwyn cael darlun clir o ddyheadau ac anghenion yr unigolyn. Mae'n bwysig creu perthynas bersonol gyda'r unigolion lle mae hynny'n bosib, ac yn ddelfrydol bydd gan yr unigolion rôl o fewn y trefniadau os ydyn nhw'n dymuno hynny. Mae meithrin ymdeimlad o berchnogaeth yn hanfodol os ydy'r unigolyn yn mynd i gymryd rôl drefniadol. Mae'n rhaid sicrhau gweithgaredd, lleoliad ac amser sy'n addas – a chyfle digonol i fwydo syniadau pellach i'r broses.

Dysgodd swyddogion y Fenter Iaith i beidio cael eu cyfyngu gan ffiniau na'r dehongliad 'ffug' o gymuned. Un wers bwysig yw bod yn barod i drefnu gweithgaredd sy'n ymestyn ar draws ffiniau 'gwleidyddol' anystwyth - hyd yn oed o fewn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Nid yw pawb sy'n byw o fewn ardal 'Cymunedau yn Gyntaf' yn mynd i gydnabod nac adnabod yr ardal honno fel eu cymuned nhw. Os am sicrhau bod pobl yn teimlo yn gyfforddus ac yn gartrefol, gadewch iddyn nhw ddiffinio eu 'cymuned' eu hunain.

Doedd dim cynrychiolydd Cymunedau yn Gyntaf ar y tîm cynllunio. Mae'n ymddangos yn fwlch amlwg i rywun 'o'r tu allan' sy'n darllen yr adroddiad, ac yn awgrymu bod Cymunedau yn Gyntaf wedi eu hepgor o'r trefniadau. Wedi dweud hynny, heb wybod y ffeithiau yn llawn, mae'n bosib bod gwahoddiad wedi ei gynnig, ac wedi ei wrthod neu'i anwybyddu. Gallai hyn fod yn symptom o broblem ehangach lle nad yw rhai mudiadau yn gweld perthnasedd yr iaith Gymraeg, ac o ganlyniad ddim yn ymwneud ag unrhyw weithgareddau Cymraeg, sydd yn ei dro yn cynnig ateb rhannol i'r cwestiwn pam nad yw rhai siaradwyr Cymraeg yn gweld y mudiadau hynny yn berthnasol iddyn nhw. Mae'n gylch dieflig sydd angen ei thorri. Gall hefyd fod yn symptom o broblem lle nad yw rhai o'r Mentrau Iaith yn gweld perthnasedd datblygu cymunedol o fewn yr agenda cynllunio iaith cymunedol, ac o ganlyniad ddim yn gweld gwerth mewn ymwneud â mudiadau sy'n gweithio yn y maes datblygu cymunedol. Beth bynnag yw'r rheswm, mae'n awgrymu dylai fod mwy o gydweithredu rhwng Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a'r Mentrau Iaith, gyda'r naill yn gallu dysgu wrth y llall.

O safbwynt yr hyrwyddo, a ellid fod wedi hyrwyddo mewn mannau eraill gan ddefnyddio dulliau eraill? Yn amlwg mae adnoddau ac amser yn gallu llesteirio ymdrechion o bryd i'w gilydd, ond dylid bob amser anelu at fod yn

ddyfeisgar ac yn greadigol gan beidio dibynnu ar ddulliau 'poster a thaflen' bob tro. Y nod yw cyrraedd cynulleidfa sydd o bosib yn cael eu heithrio neu eu hallgáu gan ddulliau 'arferol' o hyrwyddo, ac i gyflawni hyn yn llwyddiannus mae angen agwedd rhagweithiol.

Mae bob amser yn broblem sicrhau gwirfoddolwyr. Mae'n bwysig cydnabod nad pawb sydd eisiau gwirfoddoli, ac mae lefel yr ymwneud yn mynd i amrywio hefyd, ond o annog pobl i fod â rhan yn y trefniadau, y rheolaeth neu hyd yn oed i gyfrannu drwy fod yn rhan o'r broses ymgynghorol, yn gwbl allweddol. Mae'r Fenter Iaith yn nodi yn eu hadroddiad y byddai wedi bod yn ddefnyddiol i gael gwirfoddolwyr o'r gymuned i gynorthwyo ar y noson. Mae'n bwysig i unrhyw fudiad sy'n defnyddio gwirfoddolwyr mewn gweithgareddau lle mae plant a phobl ifanc yn bresennol, i fod yn ymwybodol o'r gofynion cyfreithiol sydd ynghlwm â hynny.

Y broses werthuso. Mae'r ffaith bod y rhai a fynychodd wedi nodi nad oedd unrhyw ddarpariaeth debyg yn y sir yn profi pwysigrwydd ymgynghori, a phwysigrwydd ymateb i ddyheadau'r trigolion. Mae hefyd yn awgrymu mai bach iawn o waith sydd wedi cael ei wneud gan bartneriaethau lleol Cymunedau yn Gyntaf i ymchwilio i anghenion siaradwyr Cymraeg a dysgwyr o fewn eu hardaloedd. Mae'n bosibl pe byddai partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf o fewn y sir yn llunio proffil iaith cymunedol syml byddent wedi adnabod yr angen i gynnal gweithgaredd tebyg ers amser. Mae'r ffaith bod awydd i weld yr achlysur yn troi'n rhywbeth rheolaidd, yn awgrymu cyfle i gydweithio ar rywbeth penodol rhwng y Fenter Iaith a'r bartneriaeth leol. Roedd y ganmoliaeth i amrywiaeth y gweithgareddau ac addasrwydd y lleoliad yn profi bod ymgynghori trwyadl ymlaen llaw wedi talu ar ei ganfed. Diddorol yw nodi'r defnydd o'r gair 'diogel' yng nghyd-destun y lleoliad. Mae diogelwch llythrennol yn bwysig i bobol, ond hefyd lleoliad lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus i fwynhau eu hunain ac i ymarfer eu Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol, anfeiriadol.

Os ydy'r achlysur yn mynd i droi yn rhywbeth rheolaidd, misol o bosib, mae'r Fenter Iaith wedi mynegi awydd i weld y gweithgareddau yn symud o le i le o fewn y sir yn hytrach nag yn aros o fewn yr un ganolfan hamdden bob tro. Byddai hyn yn agor y ddarpariaeth i nifer helaeth o bobl o fewn y sir, a byddai'n fodd o rannu'r baich trefniadol gyda nifer ehangach o'r partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf sy'n bodoli o fewn y sir.

Sir y Fflint

Mae'r ffaith bod trefnwyr y Ffiesta wedi gofyn i rieni Treffynnon a'r Fflint i drefnu bysus yn arwydd o'u hawydd i weld trigolion y bröydd hyn yn cymryd camau drostynt eu hunain o safbwynt cyfranogi. Does dim modd dweud o ddarllen yr adroddiad faint o waith a wnaed yn lleol i esbonio'r Ffiesta, i gefnogi a mentora aelodau'r gymuned wrth iddynt ymwneud â'r trefniadau, ac i ymgynghori ynglŷn â'u hanghenion. Mae cwestiwn hefyd yn codi ynglŷn â'r ddarpariaeth sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf sydd heb unrhyw gysylltiad â sefydliadau addysgiadol Cymraeg.

Unwaith eto, mae pwysigrwydd ymgynghori yn amlwg. Dengys yr adroddiad bod y rhieni wedi penderfynu defnyddio rhwydweithiau parod - Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon - i gyflawni'r amcan o drefnu bysus. Mae hyn yn syniad da. Os oes pwyllgor addas yn bodoli gall gynorthwyo i gyd-lynu'r prosiect, neu i'w tynnu mewn fel partneriaid, gorau oll. Mae'n osgoi gorfod cychwyn o'r cychwyn a chreu rhwydweithiau o'r newydd. Y peryg amlwg yw mai'r 'un hen wyneb' sy'n gwneud y trefniadau, a does dim lle bob amser i waed newydd neu i bobl eraill o'r gymuned sy'n awyddus i gyfranogi.

Mae'n siom naturiol mai'r Fenter Iaith oedd wedi ysgwyddo baich trefniadau'r bysus. Heb wybod y cefndir, does dim modd gwybod i sicrwydd beth oedd y rhesymau am hyn. Gallai fod yn un o nifer o resymau - trigolion lleol ddim yn teimlo'n ddigon hyderus/heb gael digon o gefnogaeth i drefnu bysus, trigolion Treffynnon a'r Fflint ddim yn teimlo bod y Ffiesta yn yr Wyddgrug yn ateb eu hanghenion, trigolion ddim yn teimlo eu bod yn rhan o'r achlysur a heb gael rôl yn nhrefniadau'r Ffiesta. Pe byddai ymdeimlad o berchnogaeth o'r wyl ei hun, mae'n bosib byddai mwy o fwrlwm a brwdfrydedd yn ardaloedd Treffynnon a'r Fflint. Heb fod yn ymwybodol o'r manylion, damcaniaethu yn unig allwn wneud.

Mae'n argoeli'n dda bod gobaith i bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon gydweithio yn y dyfodol, ac er na lwyddwyd i greu grŵp lleol cynaliadwy i weithio dros y Gymraeg, mae'r ffaith bod cysylltiadau newydd wedi eu creu yn rhoi llwyfan i adeiladu arno.

Llanion, Doc Penfro, Sir Benfro

Roedd yr unigolion (cynrychiolwyr mudiadau) a wahoddwyd i'r cyfarfod cychwynnol yn byw o fewn ward Llanion, ac yn debygol o adnabod yr ardal a'i thrigolion, ac yn ymwybodol o ddyheadau'r trigolion. Roedd hwn yn gam doeth iawn ar ran y Fenter Iaith fel dangoswyd yn hwyrach yn y broses wrth i'r unigolion hyn fanteisio ar eu gwybodaeth leol a'u cysylltiadau lleol er mwyn hyrwyddo'r achlysur.

Drwy gynnal y cyfarfod cychwynnol yn swyddfa Cymunedau yn Gyntaf, roedd y Fenter Iaith a'r partneriaid eraill wedi llwyddo i wneud staff y bartneriaeth yn gwbl ganolog i'r trefniadau.

Mae'r ffaith taw 11 o'r 38 a fynychodd oedd yn dod o ward Llanion yn awgrymu eto nad yw pobl o reidrwydd yn adnabod y ffiniau cymunedol sydd wedi eu gosod arnynt gan raglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae'n debygol iawn bod nifer o'r siaradwyr Cymraeg a fynychodd yn teimlo bod eu cymdeithas nhw yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau ward Llanion.

Yn dilyn yr achlysur lluniwyd dogfen ychwanegol [atodiad 3b] gan y Fenter Iaith oedd yn gwneud rhai casgliadau cyffredinol ynglŷn â'r noson.

Cwestiynwyd ai Twmpath Dawns oedd y gweithgaredd mwyaf addas er mwyn denu trigolion yr ardal at ei gilydd. Nododd y Fenter byddai mwy o

ymgyngori wedi bod yn fuddiol er mwyn cynyddu'r elfen o berchnogaeth leol ar y digwyddiad.

Roedd y Fenter Iaith yn meddwl tybed a fyddai gweithgaredd wedi ei anelu yn fwy at blant oed cynradd wedi gweithio yn well o ystyried bod nifer o deuluoedd yn anfon eu plant i Uned Gynradd Gymraeg gyfagos.

O ran yr hyrwyddo, tybed a fyddai llythyru yn uniongyrchol â rhieni Uned Gymraeg Penfro wedi bod yn fwy effeithiol na dosbarthu taflenni. Gellid hefyd fod wedi annerch rhieni'r uned yn uniongyrchol drwy drefnu ymweliad.

O ystyried bod mwyafrif y rhai a fynychodd yn aelodau o ddosbarthiadau Cymraeg, roedd cynnwys tiwtoriaid yn y broses hyrwyddo yn allweddol.

Cysylltiadau lleol, a throsglwyddo gwybodaeth ar lafar yn uniongyrchol oedd y dull mwyaf effeithiol o hyrwyddo. Unwaith eto gwelwn bwysigrwydd cysylltiadau a gwybodaeth leol.

Ai clwb rygbi trwyddedig oedd y lleoliad mwyaf addas ar gyfer gweithgaredd i'r teulu cyfan? Tybed a fyddai mwy wedi dod pe byddai'r achlysur wedi ei drefnu mewn neuadd yn Noc Penfro. Mae hyn yn adleisio pwyntiau blaenorol ynglŷn â sicrhau lleoliad addas a 'diogel' lle mae pobl yn teimlo'n gyfforddus.

Roedd y noson yn bwysig iawn o ran codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg mewn ardal fel Doc Penfro.

Mae'r Fenter wedi hen gydnabod pwysigrwydd creu cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth, ac roedd y Twmpath yn un o nifer o weithgareddau sydd wedi cael eu trefnu ganddynt, yn deithiau, yn weithgareddau ac yn ddigwyddiadau preswyl.

Byddai medru cyflogi person i gydlynu gweithgareddau Cymraeg a Chymreig yn yr ardal yn fantais fawr, ac mae'r Fenter Iaith yn nodi'r gwendid nad oes un aelod o staff Cymunedau yn Gyntaf sy'n siarad nac yn dysgu Cymraeg. Mae hyn eto yn mynd at graidd yr angen i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gweld bod rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn berthnasol iddynt. Os nad yw partneriaethau lleol Cymunedau yn Gyntaf yn medru cyfathrebu gyda'r gymuned mewn dull sy'n ieithyddol nac yn ddiwylliannol addas, does dim syndod yn y byd nad yw siaradwyr Cymraeg na dysgwyr yn dymuno cyfranogi yng ngweithgareddau nac yn strwythurau rheoli rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

Mae'r Fenter Iaith yn nodi bod arian Ewropeaidd wedi ei sicrhau er mwyn sefydlu papur bro yn ne Sir Benfro, ac ar Fawrth 1af 2007, daeth Dan y Lansker i fodolaeth. Bydd hwn yn gyfrwng hollbwysig i hyrwyddo digwyddiadau, a chadw siaradwyr Cymraeg a dysgwyr mewn cysylltiad â'i gilydd yn Ne Sir Benfro yn y dyfodol.

Argymhellion Cyffredinol ac Enghreifftiau o Arfer Da ar gyfer Annog Cyfranogaeth Siaradwyr Cymraeg a Dysgwyr

Ar ôl astudio'r adroddiadau gan y Mentrau Iaith, yn ogystal ag ystyried rhai o'r egwyddorion sy'n codi yn **Creu arfau ychwanegol i sicrhau cyfranogaeth siaradwyr Cymraeg yn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a Denu Siaradwyr Cymraeg at Cymunedau yn Gyntaf**, gallwn lunio rhai argymhellion cyffredinol yn seiliedig ar eu profiadau a'u canfyddiadau. Nid 'arfau cyfranogaeth' ffurfiol yw'r rhain i gyd, yn wahanol i'r arfau a nodir gan Thomas, Jones & Batten ar dudalen 13 yr adroddiad hwn, ond gellid eu hystyried yn enghreifftiau o arfer da i'w cadw mewn cof gan y Mentrau Iaith, Rhwydwaith Gefnogi Cymunedau yn Gyntaf a phartneriaethau lleol Cymunedau yn Gyntaf fel ei gilydd wrth iddynt geisio cynyddu cyfranogiad siaradwyr Cymraeg a dysgwyr mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Er ei bod hi'n bosibl bod nifer o'r argymhellion isod yn cael eu gweithredu yn barod, un o'r pethau sy'n mynd i fod yn heriol, yn enwedig i nifer o bartneriaethau lleol Cymunedau yn Gyntaf, yw sicrhau bod yr amrywiol elfennau yn cael eu cynnal yn Gymraeg ac yn ddwyieithog. I nifer o bartneriaethau bydd hyn yn golygu newid diwylliant mewnol sylweddol er mwyn sicrhau bod ystyriaethau ieithyddol yn dod yn rhan o brif-ffrwd eu meddylfryd, eu gweithgaredd a'u 'harfau cyfranogaeth'.

Cyswllt Addas Gyda'r Trigolion Lleol

- Mae ymgynghori gyda thrigolion lleol yn gwbl allweddol os am adlewyrchu gwir ddyheadau'r trigolion, ac os am feithrin ymdeimlad o berchnogaeth y trigolion lleol dros unrhyw weithgaredd. Mae'n hanfodol bod unrhyw ymgynghori yn digwydd mewn modd ieithyddol a diwylliannol addas
- Creu perthynas bersonol gydag aelodau'r gymuned, ac yn ddelfrydol bod yn aelod o'r gymuned honno eich hun
- Mapio dyheadau ac anghenion y trigolion lleol – o bosib ar ffurf proffil iaith cymunedol
- Annog perchnogaeth yn y gweithgaredd - caniatáu i bobl gyfranogi drwy ymgynghori, gwirfoddoli, rheoli
- Trefnu lleoliad ac amser addas – gan gofio pwy yw'r gynulleidfa darged. Does dim pwrpas trefnu lleoliad trwyddedig os mai denu plant a phobl ifanc yw'r nod.
- Anghofio am ffiniau cymunedol 'ffug'
- Bod yn ddyfeisgar ac yn greadigol wrth hyrwyddo achlysur
- Sicrhau darpariaeth i bawb o fewn y gymuned, gan osgoi targedu un sector yn unig (e.e. ysgolion Cymraeg / byd addysg)

Cyd-weithio Gyda Phartneriaid, Rhwydweithiau ac Unigolion Allweddol

- Sicrhau aelodaeth gynrychioladol ar unrhyw dîm cynllunio – gan annog cynrychiolaeth o bartneriaethau lleol Cymunedau yn Gyntaf

- Defnyddio unrhyw rwydweithiau addas sy'n bodoli, fel partneriaid yn y broses o drefnu - gan osgoi allgau unrhyw un newydd sy'n awyddus i gyfranogi
- Bod yn effro i'r pwysigrwydd o sicrhau trigolion lleol ar unrhyw bwyllgor. Bydd eu gwybodaeth leol, a'u cysylltiadau yn gwbl allweddol.

Anogaeth a Chefnogaeth

- Annog gwirfoddoli wrth drefnu achlysur, gan fod yn sensitif i'r ffaith bod awydd pobl i gyfranogi yn mynd i amrywio
- Sicrhau bod gan y timau trefnu y sgiliau a'r hyder i weithredu unrhyw ran o'r gwaith sy'n cael ei 'ddirprwyo'/ymddiried iddynt gan y Fenter Iaith/Cymunedau yn Gyntaf. Gall hyn olygu hyfforddiant, mentora a chefnogaeth barhaus
- Cynorthwyo timau trefnu i weld ymhellach na'r achlysur ei hun. Ceisio sicrhau gwaddol cynaliadwy, a phwyllgor fydd yn gallu parhau i weithio dros y Gymraeg yn eu cymunedau yn y dyfodol

Datblygu a Gwella yn Gyson

- Asesu llwyddiant gweithgaredd, a dysgu unrhyw wersi sydd i'w dysgu
- Chwilio am ddulliau o wneud gweithgaredd yn gynaliadwy os am gynnal rhywbeth yn gyson
- Defnyddio gweithgareddau fel cyfle i godi ymwybyddiaeth yn lleol. Nid yw llwyddiannau yn mynd i ddigwydd dros nos bob tro, felly gellid ystyried achlysuron unigol fel rhan o gynllun ehangach i newid agweddau dros gyfnod hwy
- Adeiladu ar lwyddiannau, a manteisio ar unrhyw gysylltiadau newydd sy'n cael eu creu rhwng partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a'r gymuned Gymraeg yn lleol

Argymhellion Penodol i'r Mentrau Iaith

- Bod yn ymwybodol o rôl Cymunedau yn Gyntaf a chyrrff datblygu cymunedol cyffelyb o fewn yr agenda Cynllunio Iaith Cymunedol
- Adeiladu perthynas gryfach gyda phartneriaethau lleol Cymunedau yn Gyntaf, gan bwysleisio pwysigrwydd gweithredu yn ddwyieithog a phrif-frydio'r Gymraeg
- Cynorthwyo partneriaethau lleol i greu a gweithredu ar ganfyddiadau Proffil Iaith Cymunedol
- Ceisio cynnwys partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf mor gynnar â phosibl yn y broses o greu a threfnu achlysur

Argymhellion Penodol i Bartneriaethau Lleol Cymunedau yn Gyntaf a'r Rh.G.C.G.

- Bod yn ymwybodol o arwyddocâd y Gymraeg o fewn y maes Datblygu Cymunedol
- Llunio proffil iaith cymunedol gyda chymorth y Mentrau Iaith, a gweithredu ar y canfyddiadau

- Defnyddio dulliau a thechnegau ymgynghori sy'n ieithyddol ac yn ddiwylliannol addas
- Sicrhau gweithgareddau sy'n ieithyddol ac yn ddiwylliannol addas
- Sicrhau partneriaid addas all fod o gymorth - e.e. CYD, TWF, Yr Urdd, tiwtoriaid Cymraeg a.y.b.
- Sicrhau nifer ddigonol o staff, gwirfoddolwyr, rheolwyr ac ymddiriedolwyr dwyieithog ar bartneriaethau lleol Cymunedau yn Gyntaf. Mae partneriaethau lleol, fel unrhyw fudiad mewn unrhyw sector, yn mynd i'w chael yn haws i weithredu yn ddwyieithog os allant sicrhau hyn. Heb y gallu sylfaenol hwn, bydd yn anodd iawn i unrhyw fudiad gyfathrebu gyda'r gymdogaeth leol mewn dull sy'n ieithyddol ac yn ddiwylliannol addas, sydd wrth wraidd anallu ac amharodrwydd siaradwyr Cymraeg i gyfranogi. Mae'n hanfodol cynnig cyfle cyfartal i siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg fedru cyfrannu.

Y Mentrau Iaith yw'r 'broceriaid lleol' amlwg, ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i weld mwy o gysylltiad â chydweithio rhwng partneriaethau lleol Cymunedau yn Gyntaf a'r Mentrau Iaith. Er mwyn i hyn ddigwydd yn llwyddiannus mae angen i'r partneriaethau lleol gydnabod yr angen a phwysigrwydd medru gweithredu'n ddwyieithog er mwyn denu mwy o siaradwyr Cymraeg at y rhaglen, ac mae angen i ragor o'r Mentrau Iaith ddeall y cysylltiad pwysig rhwng Datblygu Cymunedol a'r Iaith Gymraeg. Gall y Mentrau Iaith gael rôl allweddol yn cefnogi'r Partneriaethau i gynyddu eu defnydd a'u hymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg, gan fod yn ffynhonnell allweddol ar gyfer cyngor ymarferol ac arbenigedd ieithyddol yn lleol.

Crynodeb

Mae dymuniad unigolyn i gyfranogi ac ymwneud ag unrhyw gynllun yn mynd i amrywio. Ni allwn ddisgwyl yr un lefel o gyfranogaeth gan bawb, ac mae'n bwysig cydnabod hynny a bod yn sensitif i hynny.

Wrth greu perthynas bersonol gydag unigolion o fewn cymuned, mae'n fantais aruthrol os ydy'r person sy'n gwneud hyn yn rhan o'r gymuned, yn aelod o'i chylchoedd diwylliannol ac ieithyddol, yn adnabod ei phobl ac yn medru siarad gydag awdurdod ynglŷn ag anghenion y gymuned.

Mewn erthygl yn Agenda (Sefydliad Materion Cymreig) mae Nicola Maxwell yn gofyn a ydy rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn llwyddo i annog cyfranogiad gan drigolion yn y cymunedau hynny, beth bynnag bo'u hiaith. Mae nifer o'r canfyddiadau yn seiliedig ar adroddiad Rhwydwaith Gwrth Dloddi Cymru **"Walking the Talk: Communities on Communities First"**. Mae'r adroddiad yn nodi, er bod cyfranogaeth leol yn un o egwyddorion sylfaenol strategaeth Cymunedau yn Gyntaf, dydy'r realiti ddim bob amser yn adlewyrchu hyn.

"Communities First ...will only work if power is transferred to the local people directly affected: current power holders must be willing to hand over decision-making to people from the communities involved."

Yr awgrym yma yw bod nifer o bobl o fewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn ei chael hi'n anodd cyfranogi, ac os yw'r bartneriaeth leol yn cael ei gweld fel corff Saesneg ei gyfrwng mae siaradwyr Cymraeg yn wynebu rhwystr dwbl. Dangosodd ymchwil gan Rhwydwaith Gwrth Dloddi Cymru mai ychydig bach iawn o'r bobl oedd yn byw yn yr ardaloedd hynny oedd wedi clywed am Cymunedau yn Gyntaf o gwbl. O ganlyniad roedd unrhyw gwestiynau pellach ynglŷn â phwy oedd yn eistedd ar y bartneriaeth a sut oedd arian yn cael ei wario yn amherthnasol ar y cyfan i'r rhan fwyaf o bobl. Os ydy hyn yn batrwm cyffredin, mae'n ymddangos bod gan bartneriaethau lleol Cymunedau yn Gyntaf llawer o waith i'w wneud o fewn eu hardaloedd yn creu cysylltiadau gyda'r trigolion. Yr awgrym yma yw nad oes ymgynghori pwrpasol ac addas wedi digwydd o gwbl, ac nad yw anghenion y trigolion wedi cael eu cofnodi na'u gweithredu. Eto, i siaradwyr Cymraeg, mewn hinsawdd fel hyn lle mae rhwystrau dwbl yn eithrio ac yn atal cyfranogiad, pa syndod nad oes unrhyw awydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae awgrym cryf yma bod angen ail edrych ar ddulliau o ymgysylltu gyda'r gymuned, a bod angen ymdrech arbennig i ymgysylltu gyda siaradwyr Cymraeg o fewn y gymuned. Yn ôl Nicola Maxwell eto :

"If Communities First is to succeed in involving all sectors of the community then time must be given to identify structures and support needed to engage the community in all its diversity and ensure that the programme is owned and influenced locally."

Yn y lle cyntaf mae angen i bartneriaethau lleol Cymunedau yn Gyntaf feithrin delwedd ddwyieithog, a throsglwyddo signalau dwyieithog cynhwysol a

chroesawgar drwy ymwneud yn uniongyrchol gyda'r trigolion sy'n byw o fewn yr ardaloedd hynny. Does dim modd curo'r berthynas bersonol, uniongyrchol os am feithrin ac annog dealltwriaeth a chyfranogiad.

Yn ôl cynrychiolydd o Datblygu Cymunedol Cymru, mewn cyfweiliad ar gyfer adroddiad Thomas Jones & Batten, Gorffennaf 2003, wrth greu perthynas bersonol gydag unigolion o fewn cymuned, mae rhai egwyddorion creiddiol sydd angen eu cadw mewn cof :

- *“Y mae yn rhaid i'r gweithiwr feithrin awyrgylch o oddefgarwch yn ei berthynas ag aelodau'r gymuned. Hynny yw parchu diwylliant ac arferion y gymuned.*
- *Rhaid gweithredu yn egwyddorol ac yn dryloyw.*
- *Rhaid creu ysgogiad mewn dull sydd yn ddiwylliannol dderbyniol gan y grŵp*
- *Rhaid gweithredu ar amserlen sydd yn gweddu â dymuniad ac anghenion y grŵp*
- *Y mae creu fframwaith i'r broses yn allweddol ac y mae aros o fewn y fframwaith yn angenrheidiol, gan newid gyda hawl y grŵp yn unig.*
- *Y mae'r broses yn un hir dymor.”*

Mae'n hanfodol i bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf osgoi'r demtasiwn o ddisgwyli i'r Mentrau Iaith gyflawni popeth Cymraeg. Yn rhy aml o lawer gwelwn bartneriaethau lleol yn gosod y Gymraeg mewn 'blwch' cyfleus gan ddirprwyo unrhyw beth ynglŷn â'r Gymraeg, boed yn gynllun chwarae, yn weithgaredd i rieni neu yn ymgynghoriad, i'r Mentrau Iaith, gan osgoi eu cyfrifoldeb o brif-ffrydio'r Gymraeg i'w holl weithgareddau. Mae'r Mentrau ar gael i gynghori a chynorthwyo, ond ddim i wneud y gwaith i gyd o bell ffordd.

Mae proffiliau iaith cymunedol yn gallu bod yn arfau gwerthfawr iawn i fudiadau iaith a mudiadau datblygu cymunedol. Mae proffil iaith yn gallu bod yn ddull o asesu natur ieithyddol cymuned, gan fapio patrymau a thueddiadau ieithyddol mewn ardal ddaearyddol benodol. Mae'n fodd o gasglu gwybodaeth am ddarpariaeth a defnydd yr iaith Gymraeg yn lleol ac yn ddull o gyrraedd at unigolion a rhwydweithiau Cymraeg eu hiaith a'u cynnwys yn rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf. Mae proffil iaith cynhwysfawr yn creu darlun cywir a chyflawn o'r sefyllfa ieithyddol, sydd yn ei dro yn gymorth amhrisiadwy i'r sawl sy'n defnyddio'r canlyniadau wrth iddynt drefnu cynlluniau gwaith cymunedol. Mae'n fodd o sicrhau bod prosiectau yn cydnabod, yn parchu ac yn darparu ar gyfer aelodau o'r ddwy brif gymuned ieithyddol yng Nghymru.

Yn sylfaenol iawn, os am ddenu siaradwyr Cymraeg i ymwneud â gweithgareddau a strwythurau rheoli partneriaethau lleol Cymunedau yn Gyntaf, mae'n rhaid i'r partneriaethau sicrhau bod y signalau ieithyddol a diwylliannol sy'n cael eu cyfleu ganddynt yn addas. Mae angen iddynt ystyried yr elfennau canlynol, sef elfennau Cynllun Iaith safonol o fewn y sector gwirfoddol a chymunedol :

Delwedd Gyhoeddus

- Egwyddor Sylfaenol
- Delwedd Gorfforaethol
- Arwyddion
- Cyhoeddiadau
- Ffurflenni / Cylchlythyrau
- Gwybodaeth i'r Cyfryngau
- Cyhoeddusrwydd a Marchnata
- Gwefan

Cyswllt Uniongyrchol

- Galwadau Ffôn
- Gohebiaeth
- Cyfieithu ar y Pryd
- Gofal a Gwasanaethau Uniongyrchol
- Dewis Iaith
- Cyfarfodydd Wyneb yn Wyneb
- Gweithgareddau Cymdeithasol

Gweinyddiaeth a Rheolaeth Fewnol

- Hyrwyddo'r Cynllun yn Fewnol
- Datblygu a Chynyddu'r Ddarpariaeth
- Recriwtio Staff/Gwirfoddolwyr
- Strategaeth Hyfforddi
- Canllawiau Staff
- Monitro a Gwerthuso
- Trefniadaeth Gwynion
- Cydymffurfiaeth 3ydd Parti

Nid dyma'r lle i ymhelaethu ar y penawdau uchod, ond os am wybodaeth bellach mae'n werth darllen **O'n Gwirfodd** [Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru / Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2006] neu gysylltu gydag Estyn Llaw neu Menter a Busnes am fanylion pellach. Mae manylion cyswllt a ffynonellau cymorth yn cael eu nodi ar dudalen 38.

Yn eu canllawiau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn partneriaethau lleol Cymunedau yn Gyntaf, mae Llywodraeth y Cynulliad yn nodi nifer o egwyddorion dylid eu gweithredu. Egwyddorion sy'n adlewyrchu'r braslun o gynllun iaith sector gwirfoddol a welir uchod. :

Pwyntiau Gweithredu ar gyfer pob partneriaeth (h.y. gofynnol)

- Dylai pob Partneriaeth gael enwau Cymraeg a Saesneg, neu enw sy'n dderbyniol yn y ddwy iaith.
- Dylai pob hysbyseb a hysbysiad cyhoeddus, ar gyfer swyddi neu ddiwyddiadau, fod yn gyfan gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg.

- Dylai pob logo a “strap line” a ddefnyddir gan Bartneriaeth C. yn G. fod naill ai yn ddwyieithog, neu â fersiynau ar wahân yn Gymraeg a Saesneg. Os oes fersiynau ar wahân, nid yw’n dderbyniol defnyddio un iaith yn unig mewn hysbysebion neu hysbysiadau cyhoeddus.
- Dylai cylchlythyr pob Partneriaeth C. yn G. fod â theitl dwyieithog, a dylid arddangos y teitlau dwyieithog ar y cylchlythyrau.
- Dylai pob awdit cymunedol a wneir gan Bartneriaethau, gynnwys proffil iaith syml (e.e. adnabod niferoedd siaradwyr Cymraeg a grwpiau/sefydliadau Cymraeg a dwyieithog yn yr ardal.)
- Dylai pob awdit cymunedol a wneir gan Bartneriaethau geisio darganfod dyheadau’r gymuned (yn siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd) er mwyn datblygu defnydd ehangach o’r Gymraeg o fewn y Gymuned - a dylai’r dyheadau hyn gael eu hadlewyrchu yng Nghynlluniau Gwaith Partneriaethau C. yn G.
- Dylai pob Partneriaeth C. yn G. ymwneud (*engage*) gyda’r Fenter Iaith leol am gyngor a chefnogaeth er mwyn gweithredu’n ddwyieithog a defnyddio’r Gymraeg.

I’w Hystyried yn Ogystal (h.y. heb fod yn ofynnol)

- Darparu offer cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd o’r bartneriaeth, a chyfarfodydd cyhoeddus er mwyn rhoi cyfle cyfartal i siaradwyr Cymraeg gyfrannu i weithgaredd y bartneriaeth.
- Darparu copïau dwyieithog o ddeunydd cyfarfodydd a llenyddiaeth busnes.
- Cyhoeddi’r cylchlythyr yn gyfan gwbl ddwyieithog, neu gynnwys erthyglau Cymraeg yn rheolaidd.
- [Ystyriwch...] os ydy’r gallu i ddeall, siarad a/neu ddarllen Cymraeg yn angenrheidiol ar gyfer rhai swyddi a hysbysebir - yn enwedig os bydd deilydd y swydd yn delio gyda nifer fawr o siaradwyr Cymraeg.
- Cynnal gweithgareddau a digwyddiadau trwy gyfrwng y Gymraeg, neu eu cynnal mewn modd a fydd yn meithrin dealltwriaeth a gwybodaeth ehangach o’r iaith a’r diwylliant.
- Creu cysylltiad gyda chlybiau, grwpiau cymdeithasol a sefydliadau lleol Cymraeg eu hiaith.

Mae’n bwysig cydnabod hefyd nad yw un achlysur na digwyddiad unigol/penodol yn mynd i annog siaradwyr Cymraeg i gyfranogi. Mae’n broses barhaus, ac yn mynd i olygu newid diwylliant sylfaenol o fewn nifer o bartneriaethau lleol Cymunedau yn Gyntaf. Y gobaith yw, o wneud hyn, bydd y partneriaethau lleol yn :

- fwy cynhwysol ac yn fwy cynrychioladol o’r gymdeithas,
- medru ymateb yn well i anghenion y gymuned leol,
- gallu denu mwy o wirfoddolwyr a defnyddwyr Cymraeg eu hiaith,
- medru manteisio ar syniadau a ddaw gan bobl o gefndiroedd gwahanol.

Wrth anelu i brif-ffrydio'r Gymraeg i bob agwedd o weithgarwch, mae'n bwysig cofio ystyried y ddwy iaith ar ddechrau unrhyw ymgyrch, brosiect, cyhoeddiad a.y.b. – nid fel ôl-nodyn ar ddiwedd y broses greadigol.

Mae nifer fawr o fanteision yn deillio o weithredu yn ddwyieithog ac yn gynhwysol. Yn aml, diffyg gwybodaeth ynglŷn â sut i fynd o'i chwmpas hi yw'r maen tramgwydd, neu ofn newid. Prin iawn, iawn yw'r enghreifftiau o elyniaeth tuag at y Gymraeg. Os oes unrhyw bartneriaethau neu gyrff sy'n ymwneud â Chymunedau yn Gyntaf eisiau trafod unrhyw faterion sy'n codi yn y ddogfen hon, yn chwilio am gopïau o'r cyhoeddiadau a gyfeirir atynt yn ystod yr adroddiad, neu eisiau cymorth i lunio strategaeth datblygu dwyieithrwydd a chynghor ynglŷn â gweithredu elfennau penodol o'u gweithgareddau yn ddwyieithog, mae cymorth pellach ar gael drwy gysylltu â :

- Menter a Busnes - Aelod o Rhwydwaith Gefnogi Cymunedau yn Gyntaf
llyr@menterabusnes.co.uk
www.menterabusnes.co.uk
- Estyn Llaw – Datblygu Dwyieithrwydd yn y Sector Gwirfoddol a Chymunedol:
ymhol@estynllaw.org
www.estynllaw.org
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk
- IAITH : y ganolfan cynllunio iaith
www.iaith.eu
- Mentrau Iaith Cymru
www.mentrauiath.com

Cydnabyddiaeth a Llyfryddiaeth

2007, Griffiths E M; *Sesiynau Blasu Cymraeg*; Aberystwyth: Iaith Cyf./Menter a Busnes.

2007; *Fframwaith Strategol Cenedlaethol ar Gyfer Datblygu Cymunedol yng Nghymru*; Caerdydd: Datblygu Cymunedol Cymru/Cymunedau yn Gyntaf/Llywodraeth Cynulliad Cymru.

2007; *Dyfarnu Grantiau, Benthyciadau a Nawdd – Materion yn ymwneud â'r Gymraeg*; Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

2006, Gruffydd M; *Creu Proffil Iaith Cymunedol – Canllawiau i Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf*; Aberystwyth: Iaith Cyf./Menter a Busnes

2006, Gruffydd M; *Ateb yr Her – Cymunedau yn Gyntaf a Dwyieithrwydd*; Aberystwyth: Iaith Cyf./Menter a Busnes.

2006, Griffiths E & Malin E; *O'n Gwirfodd – Canllawiau Arfer Da i Ddatblygu'r Gymraeg yn y Sector Gwirfoddol*; Caerdydd: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru/Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

2006, Maxwell, N; *People Power*, erthygl yn Agenda (Haf 2006); Caerdydd: Sefydliad Materion Cymreig.

2005, Thomas S & Williams I; *Holiadur o Fentrau Iaith Cymru – Adolygiad o brofiad helaeth y Mentrau Iaith o ddenu siaradwyr Cymraeg i gyfrannu mewn cylchoedd gwahanol, fel rhan o brosiect i gryfhau cyfraniad siaradwyr Cymraeg o fewn Cymunedau'n Gyntaf*; adroddiad ar gyfer Menter a Busnes.

2004, Ioan G; *Cymunedau yn Siarad – Cymunedau yn Gyntaf a'r Gymraeg*; Aberystwyth: Iaith Cyf./Menter a Busnes.

2004; Jones H M; *Nifer a Chanran Siaradwyr Cymraeg 3+ yn ol Adran Etholiadol ac Oed*; Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

2003, Howys S & Ioan G; *Iechyd Da!: cyflwyniad i ymwybyddiaeth iaith yn y maes gofal iechyd*; Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru/GIG Cymru.

2003, Jones C, Thomas G, Batten D; *Creu Arfau Ychwanegol i Sicrhau Cyfranogaeth Siaradwyr Cymraeg yn Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf*, adroddiad ar gyfer Menter a Busnes.

2003, Ioan G; *Denu Siaradwyr Cymraeg at Cymunedau yn Gyntaf*, adroddiad ar gyfer Menter a Busnes.

2003; *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog*; Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

2001, Ioan G; *Agor Dau Ddrws – Cyflwyniad i waith ieuenctid dwyieithog*; Caerffili: Cyngor Ieuenctid Cymru/Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

1999, Ioan G; *Law yn Llaw: rheoli mewn amgylchedd ddwyieithog*; Caerdydd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

1999, *Iaith mewn Gwasanaeth Gofalgar*, Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

1994 a 2001, *They All Speak English Anyway – Yr Iaith Gymraeg ac Ymarfer Gwrth-orthrymol*, Caerdydd: CCETSW.

Atodiadau

Atodiad 1 :

Adroddiad Prosiect Peilot Cymunedau'n Gyntaf

Menter Iaith Sir Caerffili

Prosiect: Noson Teulu cyfrwng Cymraeg

Cefndir

Ers sefydliad Menter Iaith Sir Caerffili ym 1999, roedd darparu gweithgareddau ar gyfer teuluoedd cyfan yn flaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredol y sefydliad. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae'r Fenter wedi datblygu Cynlluniau Gofal Plant i blant ysgolion cynradd a gweithgareddau i bobl ifanc y sir. Yn ogystal, datblygwyd partneriaethau agos gydag ysgolion a chylchoedd meithrin y sir ynghyd â gwaith gyda rhieni ac oedolion sy'n dysgu Cymraeg. Er mwyn datblygu ein gwaith gyda theuluoedd, penderfynwyd holi rhieni a theuluoedd ynglŷn â'u diddordebau a'u hanghenion o ran gweithgareddau cyfrwng Cymraeg.

Yn sgil yr ymgynghoriad eang hwn gyda'n cwsmeriaid a siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn gyffredinol, roedd yn glir fod cefnogaeth sylweddol i weithgaredd/noson i'r teulu cyfan. Nodwyd cefnogaeth i weithgareddau lle fyddai plant o ardaloedd amrywiol y sir yn medru cwrdd â phlant eraill oedd yn siarad Cymraeg, achlysur lle'r oedd cyfle i rieni di-Gymraeg i gwrdd â rhieni di-Gymraeg eraill a gweithgaredd lle gallai rhieni di-Gymraeg datblygu cysylltiad agosach a'r iaith Gymraeg.

Ymgynghoriad

Yn sgil yr ymateb cadarnhaol hwn, penderfynwyd ymgynghori ymhellach ac yn benodol ynghylch cynnal a threfnu noson arbennig i deuluoedd. Rhoddwyd cyfle i blant a rhieni i nodi pa fath o weithgareddau yr hoffent weld, pa leoliad ac amser roeddent yn ffafrio a chyfle i wneud unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r syniad. Ymgynghorwyd ar ffurf holiadur yn eang iawn trwy ysgolion cynradd ac uwchradd y sir, y Cylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi, grwpiau cefnogi teuluoedd, clybiau ieuencid a dosbarthwyd holiaduron o fewn meddygfeydd ac amrywiaeth o adeiladau a darpariaethau cymunedol eraill. Targedwyd ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn arbennig ond ymgynghorwyd ymhellach ar draws y sir gyfan.

Canlyniadau

Yn ystod yr ymgynghoriad nodwyd y byddai plant yn hoffi gweld gweithgareddau megis chwaraeon amrywiol, gweithgareddau crefft, dawnio a gweithgareddau cerddoriaeth. Nododd rhieni ac oedolion yr hoffent gyfle i gymdeithasu gyda'r rheini eraill, cyfle i ymuno mewn gweithgareddau gyda'u

plant, cyfle i gael gwersi Cymraeg a chyfle i brofi triniaethau megis 'aromatherapi' a 'reflexology' a hefyd cyfle i dderbyn gwybodaeth ar wasanaethau a gwersi Cymraeg.

Wedi astudio'r ymateb hwn, penderfynwyd cynnal noson o weithgareddau amrywiol mewn canolfan hamdden, ble byddai cyfle i blant a rhieni i ymuno mewn gweithgareddau ar wahân a gyda'i gilydd, yn ogystal â chyfle i rieni i dderbyn gwybodaeth a chyngor.

Y Broses Cynllunio

Trefnwyd i gynnal y gweithgaredd ar Fawrth 13eg 2004 rhwng 6-9:30pm yng Nghanolfan Hamdden Heolddu, Bargod, yn Sir Caerffili. Ardal Cymunedau'n Gyntaf yw Bargod, ac yn naturiol yn ardal ddifreintiedig iawn. Staff y Fenter oedd y prif drefnwyr ond teimlwyd ei fod yn bwysig parhau i ymgynghori wrth drefnu ac annog cyfranogiad ymhlith cymunedau'r sir. I'r perwyl hwn felly, gwahoddwyd nifer o gyrff ac unigolion amrywiol i fod yn rhan o'r tîm cynllunio. Cafwyd cynrychiolaeth o brosiect TWF, Mudiad Ysgolion Meithrin, Consortiwm Cymraeg i Oedolion, Canolfan Hamdden Heolddu, RHAG, Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Sir Caerffili a Chynlluniau Gofal Plant y Fenter. Y grŵp hwn a oedd yn cynllunio trefniadau'r noson yn ogystal â thrafod sut i farchnata a gwerthuso'r prosiect. Cynhyrchwyd posteri a thafleuni gwybodaeth yn hysbysebu'r noson a dosbarthwyd y rhain ymysg holl ysgolion a chylchoedd meithrin y sir, yn ogystal â meddygfeydd a chanolfannau cymunedol amrywiol. Hysbysebwyd y noson ar wefan y Fenter yn ogystal ag ymhlith cylchlythyron cyrff eraill.

Cynlluniwyd y noson mewn partneriaeth agos a'r ganolfan hamdden ei hun ond hefyd gyda'r cynrychiolwyr uchod a oedd am gynnig gweithgareddau ar y noson. Gwelir isod yr amrywiaeth o weithgareddau a ddarparwyd:

- Er mwyn cynnig llawer o wybodaeth i rieni, penderfynwyd gwahodd Prosiect TWF i'r noson i gynnig cyngor i rieni ar fagu plant yn ddwyieithog a chynnig rhywfaint o weithgareddau i blant.
- Daeth tiwtor Cymraeg ar ran Consortiwm Cymraeg i Oedolion Gwent i gynnig gwersi blasu i rieni yn ogystal â chynnig cyngor a gwybodaeth ar wersi Cymraeg yn yr ardal.
- Trefnwyd i gwmni Mabon a Mabli i ddod i werthu llyfrau Cymraeg.
- Darparwyd creche i blant bach.
- Mynediad i'r pwll nofio
- Amrywiaeth o chwaraeon megis pêl-droed, golff, ymladd 'sumo', pêl-fasged
- Sesiwn dawnsio ac arddangosfa dawnsio
- Gweithgareddau crefft a gwneud gemwaith
- Aromatherapy a reflexology
- Lluniaeth ysgafn
- Cymeriadau S4C
- Stondinau gwybodaeth

Yn ystod y noson bu'r grŵp cynllunio yn gyfrifol am gydlynu'r gweithgareddau. Yn ogystal, yn ystod y broses cynllunio trefnwyd nifer o wirfoddolwyr o gymunedau lleol er mwyn annog cyfranogiad a cheisio datblygu'r prosiect yn brofiad cymunedol, a oedd yn cynnig cyfle i bobl i gyfrannu at reolaeth a gwerthusiad y prosiect.

Gwerthuso a gwersi i'w dysgu

Bu'r noson yn llwyddiant mawr gyda dros 100 o bobl yn mynychu. Gwnaethpwyd gwaith gwerthuso yn ystod y noson, trwy ymgynghori a phlant a rhieni ynghylch eu barn am y gweithgareddau, y lleoliad a'r amser, a rhai elfennau eraill. Gosodwyd blychau awgrymiadau yn ogystal o amgylch y ganolfan hamdden. Derbyniwyd ymateb cadarnhaol a brwdfrydig dros ben. Nodwyd bod amrywiaeth digonol o weithgareddau i blant ac oedolion a bod y ganolfan hamdden ei hun yn addas dros ben gan fod nifer o gyfleusterau ar gael yno. Nodir isod nifer o sylwadau a phwyntiau pellach i'w hystyried:

- Nid oedd unrhyw ddarpariaeth debyg ar gael yn Gymraeg yn y sir
- Dylid cynnal noson debyg yn fisol
- Roedd digon o amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer yr amrediad o oedrannau.
- Roedd y lleoliad yn ddiogel fel bod rhieni yn medru cael tro ar weithgareddau heb boeni am ddiogelwch eu plant.
- Dylid ystyried cychwyn y noson yn gynharach er mwyn y plant ifanc iawn.
- Roedd y gweithgareddau wedi'u gwasgaru o fewn y ganolfan ac efallai byddai wedi bod yn well cael y mwyafrif o weithgareddau yn y brif neuadd chwaraeon.
- Roedd y pris mynediad yn rhesymol iawn.
- Roedd teuluoedd wedi derbyn gwybodaeth glir mewn digon o amser

Yn dilyn y noson cynhaliwyd cyfarfod gwerthuso ar gyfer y grŵp cynllunio er mwyn ystyried canlyniad y gwaith gwerthuso yn ystod y gweithgaredd ac er mwyn gwerthuso'r gweithgaredd a'r holl broses fel tîm cynllunio. Teimlwyd fod y noson wedi bod yn hynod lwyddiannus ac roedd pawb wedi derbyn ymateb cadarnhaol iawn yn ystod y gweithgaredd, gyda nifer o bobl yn canmol y syniad ac yn gofyn pryd oedd y noson nesaf. Teimlodd y grŵp cynllunio ei fod wedi bod yn broses gwerthfawr iawn a bod sicrhau cynrychiolaeth gymunedol ar y pwyllgor wedi sicrhau fod y trefniadau wedi bod yn effeithiol ac wedi annog cyfranogiad. Awgrymwyd y gellid hyd yn oed gwahodd rhagor o gynrychiolaeth petai'r gweithgaredd yn digwydd eto. Yn ogystal, teimlwyd y byddai rhagor o wirfoddolwyr ar y noson wedi bod o gymorth. O ran marchnata'r noson, awgrymwyd y byddai marchnata pellach yn ddefnyddiol, er enghraifft defnyddio'r wasg leol a radio lleol. Er llwyddiant y noson, awgrymwyd y dylid ystyried cynnal nosweithiau tebyg mewn mannau amrywiol yn y sir yn hytrach na ail-gynnal y noson yn yr un ganolfan. Byddai

hwn o bosib yn sicrhau fod cymunedau gwahanol yn medru mynychu gweithgaredd o'r fath.

Atodiad 2 :

Adroddiad Prosiect peilot Cymunedau'n Gyntaf

Ffiesta Sir y Fflint

Prosiect : Trefnu Bysiau o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf i'r wyl.

Cefndir.

Ers 2001 mae'r Fenter Iaith wedi bod yn trefnu gwyl fawr "Ffiesta Sir y Fflint" li ddathlu'r iaith Gymraeg yn y Sir ond gan fod yr wyl wedi ei sefydlu yn yr Wyddgrug nid oes llawer o blant a rhieni wedi bod yn mynychu o ardaloedd Treffynnon a'r Fflint. Penderfynwyd felly y buasai'n syniad da ceisio trefnu bysiau o'r trefi yma ac yn arbennig o'r ardaloedd cymunedau'n gyntaf yn y ddwy dref.

Dull Gweithredu

Gan mai gwyl Cymraeg yw'r Ffiesta penderfynwyd canolbwyntio ar aelodau o'r cymunedau yma sydd hefyd yn aelodau o gymuned â diddordeb mewn hyrwyddo'r Gymraeg - rhieni disgyblion ysgolion Cymraeg y ddwy dref. Gan mai'r bwriad oedd cynyddu eu mynediad at gynllun Cymunedau'n Gyntaf a'u gallu i drefnu pethau fel cymuned gofynnwyd iddynt fynd ati i drefnu ac i lenwi'r bysus eu hunain.

Canlyniadau

Llenwyd y ddau fws ac fe arweiniodd hyn at y niferoedd yn cynyddu ryw chydig yn y Ffiesta eleni o'u cymharu â'r flwyddyn gynt. Hefyd roedd cynrychiolaeth well o drefi'r Fflint a Treffynnon. Fe wnaeth y Rhieni drefnu'r bysiau drwy rwydwaith oedd yn bodoli'n barod sef y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.

Gwerthuso

O ran bo'r gweithgaredd yn digwydd roedd y trefniant yn effeithiol iawn. Efallai bo'r ffaith mai aelod o staff y Fenter Iaith ac nid y criw a drefnodd y bysys sy'n cwblhau'r adroddiad yma yn awgrymu na fuom yn hynod lwyddiannus wrth geisio sefydlu grŵp parhaol yn y gymuned i weithio dros y Gymraeg.

Wedi dweud hyn mae'r grŵp Rhieni ac Athrawon yn gwybod mwy am y cynllun cymunedau'n gyntaf bellach.

Efallai bydd modd i staff Cymunedau'n gyntaf Treffynnon â'r Fflint gwneud sesiynau pellach gyda'r Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon i'w denu i weithgarwch fel rhan o'r cynllun ac i fanteisio ar e u sgiliau dwyieithog.

Atodiad 3a :

Trefnu Digwyddiad yn Ward Cymunedau'n Gyntaf Llanion, Doc Penfro.

Cytunodd Menter Iaith Sir Benfro i gydlynu'r trefniadau a'r gweithgareddau. I'r diben hynny galwyd cyfarfod o gynrychiolwyr CYD a TWF (sef Amelia Amos a Donna Maiden - sydd eu dwy yn byw yn y ward), a David Hedley Williams, Tiwtor/drefnydd Dosbarthiadau Cymraeg i Brifysgol Aberystwyth yn Sir Benfro (sydd hefyd yn byw yn Ward Llanion).

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf hwn yn swyddfa Cymunedau'n Gyntaf gyda'r Prif Swyddog, Mike Odlin yn ymuno gyda ni cyn diwedd y cyfarfod.

Cytunwyd i drefnu Twmpath Dawns mewn ystafell bwrpasol yng Nghlwb Rygbi Cwms Doc Penfro, sydd wedi ei leoli o fewn y Ward, nos Wener, Hydref 20fed., rhwng 7.00 â 9.30 pm. Cytunwyd i anelu at ddenu teuluoedd a phobl o bob oed i'r achlysur. Golyga hyn y byddai angen gemau (gyda gwobrau!) yn ogystal â dawnsfeydd i'r plant. Cytunwyd hefyd i werthu cŵn poeth a lluniaeth ysgafn yn ystod y noson yn ogystal â bod y bar yn mynd i fod ar agor.

Wedi llwyddo i gael gwasanaeth y grŵp Cadi Ha dan arweiniad Huw John Caerfyrddin i fod yn gyfrifol am y dawnsio, a David Hedley Williams i fod yn gyfrifol am y gemau a sesiwn gonsurio, a llogi'r clwb rygbi, aed ati i baratoi posteri a 'flyers' i hysbysebu'r noson.

Penderfynwyd peidio codi pris mynediad i'r noson, ond er hynny i gael tocynnau i'w dosbarthu i rai a fyddai'n awyddus i ddod. Diben hynny fyddai i gael ryw amcan o'r niferoedd y gallem eu disgwyl i'r noson. Cytunwyd ar 100 tocyn.

Dosbarthwyd y flyers yn ysgolion cynradd Doc Penfro, Dosbarthiadau Cymraeg, Llyfrgell, Canolfan Addysg Bellach DP a Swyddfa Cymunedau'n Gyntaf Llanion. Gosodwyd posteri hefyd yn y lleoliadau hyn yn ogystal ag mewn siopau, tafarnau a gwestai'r ardal.

Bu'r trefnwyr hefyd yn hysbysebu'r noson trwy eu cysylltiadau personol, ffôn, ymweliadau ac ati, ac yn tynnu sylw mynychwyr y bore coffi Cymraeg misol a gynhelir yn y Doc at y noson.

Daeth 38 i'r noson, yn cynnwys 11 plentyn. O'r rheini roedd 11 (tua 28%) yn dod o Ward Llanion - 9 oedolyn a 2 blentyn. Dengys y taflenni adborth bod

pawb a ddaeth ynghyd wedi mwynhau'r profiad ac y byddai diddordeb ganddynt mewn mynychu digwyddiad tebyg eto.

Talodd y Fenter Iaith holl gostau'r noson ar y ddealltwriaeth y caent eu digolledi gyda chyfraniadau gan Cymunedau'n Gyntaf Llanion a Rhwydwaith Cefnogwyr Cymunedau'n Gyntaf ar ôl y noson.

Atodiad 3b :

Atodiad i'r Adroddiad ar Gynnal Digwyddiad yn Ward Llanion CG
(Twmpath Dawns)

Dyma rai casgliadau cyffredinol yn dilyn trefnu'r Twmpath Dawns yn Noc Penfro.

Efallai nad Twmpath Dawns oedd y gweithgaredd gorau i ddenu pobl mewn ardal fel Doc Penfro i noson Gymreig. Dylid bod wedi ymgynghori/trafod mwy gyda'r trigolion i weld beth fyddent hwy'n hoffi ei weld yn cael ei gynnal yno. Byddai hynny wedi cynyddu elfen y berchnogaeth leol ar y digwyddiad. Wedi dweud hynny pobl o Ddoc Penfro oedd ar y panel trefnu a'u barn hwy oedd y byddai Twmpath Dawns yn apelio!

O ystyried bod nifer o deuluoedd yn anfon eu plant i Uned Gymraeg Ysgol Gynradd Gelli Aur, Penfro, a bod y mwyafrif o'r teuluoedd hynny yn ddi-Gymraeg, efallai y dylid ystyried cynnal gweithgaredd a fyddai'n apelio fwy at blant oed cynradd, e.e. Clwb Hwyl, a cheisio denu diddordeb rhieni drwy eu plant.

Ond o dderbyn bod Twmpath yn weithgarwch sy'n gallu pontio gwahanol oedrannau, efallai y dylid bod wedi canolbwyntio ar rieni plant yr Uned Gymraeg ym Mhenfro, gan anfon llythyron at rieni yn hytrach na'r 'flyers' a ddefnyddiwyd gennym ni. Hefyd efallai trefnu i gynrychiolydd gael dweud gair am y cynllun mewn Cyfarfod Rhieni'r Uned.

Roedd anfon manylion at diwtoriaid Dosbarthiadau Cymraeg yr ardal wedi bod yn fwy effeithiol achos roedd y mwyafrif o'r rhai a ddaeth i'r noson yn aelodau o ryw ddosbarth Cymraeg neu'i gilydd.

Ond heb os, y cyswllt personol gan aelodau'r panel a lledi'r wybodaeth am y noson ar lafar oedd y mwyaf effeithiol.

O fod wedi penderfynu gwahodd 'y teulu cyfan' i'r gweithgaredd efallai mai cam gwag braidd oedd trefnu digwyddiad yn y Clwb Rygbi. Byddai neuadd yn Noc Penfro wedi bod yn fwy addas.

Ond ar y cyfan roedd y noson hon yn cymharu'n ffafriol gyda'r math o nosweithiau y mae'r Fenter Iaith wedi bod yn eu cynnal yn ardal Doc Penfro

dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mewn ardal fel hon mae dechrau codi ymwybyddiaeth mewn pethau Cymraeg yn gam mawr ynddo'i hunan.

Gyda'n gweithgareddau eraill ry ni'n ceisio ateb y gofyn cyson sydd yna ymhlith y dysgwyr am gyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg y tu fas i'r dosbarth. Mae'r gweithgareddau hynny wedi cynnwys parti Nadolig, noson Dwynwen, Gŵyl Ddewi a thaith i San Ffagan. Mae rhwng 40 a 60 wedi bod yn dod i'r gweithgareddau hyn. Ddiwedd mis Tachwedd eleni eto cynhaliwyd Penwythnos Preswyl i ddysgwyr yng Nghanolfan Stangbwl ger Doc Penfro gyda 45 o ddysgwyr yno.

Roedd y Twmpath felly yn un gweithgaredd mewn cyfres i ddigwyddiadau a drefnir yn yr ardal hon yn benodol i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg. Rydym dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi gweld cynnydd yn y diddordeb mewn nosweithiau fel hyn.

Petai'r adnoddau ar gael byddai penodi person i gydlynu gweithgareddau Cymraeg yn yr ardal yn gaffaeliad mawr. Dyw'r ffaith nad oes gan Wardiau Cymunedau'n Gyntaf yn Sir Benfro neb sy'n siarad Cymraeg - nac hyd yn oed yn ddysgwyr - ar eu staff ddim yn helpu'r sefyllfa.

Un datblygiad diddorol ar hyn o bryd yw bod Arian Ewropeaidd wedi ei ddiogelu i sefydlu papur bro ar gyfer De Sir Benfro.

Mae'r digwyddiadau hyn i gyd yn plethu i'w gilydd ac yn rhan o gynllun i hyrwyddo a chynyddu defnydd y Gymraeg yn Sir Benfro gan y Fenter Iaith mewn cydweithrediad â mudiadau CYD, TWF, MYM a'r Urdd a thrigolion lleol.